Arweiniad ar Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid

Ionawr 2007
(Fersiwn ddiwygiedig)

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir defnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys Tudalen

Cyd-destun **1**

Cyflwyniad 1

Manylion penodol i wasanaethau cymorth ieuenctid 2

Y Fframwaith Arolygu Cyffredin 4

Safonau **5**

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 5

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant **14**

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 14

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu'n cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc a'r gymuned ehangach? 22

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i bobl ifanc? 31

Arweinyddiaeth a rheolaeth **42**

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? 42

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 48

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 54

Atodiadau

A Yr Hawl Gyffredinol

B Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru

C Gofynion gwybodaeth

Ch Ffynonellau tystiolaeth posibl

D Acronymau a byrfoddau

Sut i gael gafael ar gyhoeddiadau Estyn

Mae'r cyhoeddiadau gan Estyn, y cyfeirir atynt yn yr arweiniad hwn, ar gael gan Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW ac ar y wefan www.estyn.gov.uk. Dylid cyfeirio pob ymholiad at ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk

Cyd-destun

Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys arweiniad ar y modd y bydd arolygwyr yn defnyddio'r fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru i arolygu darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r arweiniad hwn wedi'i gyfeirio at arolygwyr yn gyntaf. Fodd bynnag, mae hefyd wedi'i gynllunio i helpu darparwyr i asesu ansawdd eu darpariaeth eu hunain.

Diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn yr arweiniad hwn

Mae'r term 'partneriaeth' yn cyfeirio at y trefniadau hynny a arweinir gan yr awdurdod lleol, sy'n cynllunio, yn cydlynu ac yn goruchwylio pob gwasanaeth cymorth ieuenctid mewn ardal. Mae'r trefniadau partneriaeth hyn wedi'u nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000, a pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru fel a ddisgrifir yn Ymestyn Hawliau ac arweiniad cysylltiedig[1]. Gellir cyflawni'r cyfrifoldeb statudol ar gyfer cynllunio partneriaeth trwy bartneriaeth pobl ifanc, partneriaeth plant a phobl ifanc neu bartneriaeth fframwaith.

'Gwasanaethau cymorth ieuenctid' yw'r gwasanaethau hynny ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, sy'n cael eu darparu, eu caffael neu eu hwyluso gan awdurdod lleol a'u nodi yng nghynllun cyflwyno'r bartneriaeth a/neu'r adroddiad hunanasesu. Dyma'r rhai a fydd, ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru:

"yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)

- i gyfranogi'n effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;
- i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; neu
- i gyfranogi'n effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.[2]"

Yn y llawlyfr hwn, rydym yn defnyddio'r term 'profiad dysgu' i olygu'r holl weithgareddau y mae pobl ifanc yn ymgymryd â hwy trwy eu cyfranogiad â gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Rydym yn defnyddio'r term 'staff' i gynnwys pob un o'r rheiny sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Gallai'r gwaith fod mewn lleoliadau gwasanaethau cymorth ieuenctid ffurfiol neu anffurfiol ac fe'i nodweddir gan yr egwyddorion a nodwyd yn Ymestyn Hawliau.

---

[1] Mae *Ymestyn Hawliau* a'r cyfarwyddiadau a'r arweiniad ategol ar gyfer ei weithredu yn ymestyn y sail gyfreithiol yng Nghymru ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn y dogfennau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlinellu fframweithiau yn yr awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd yn darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

[2] *Ymestyn Hawliau: cefnogi pobl ifanc yng Nghymru* Adroddiad gan yr Uned Bolisi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000, tud 83

Defnyddir y term 'darparwr' trwy gydol y ddogfen hon. Gellir defnyddio'r term hwn i gyfeirio at:

- darparwr gwasanaethau unigol;
- yr holl ddarparwyr sy'n cyfrannu gwasanaethau cymorth ieuenctid trwy bartneriaeth leol; a
- phartneriaeth leol sy'n caffael neu'n hyrwyddo gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Manylion sy'n benodol i wasanaethau cymorth ieuenctid

Ystod yr arolygiad

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ar gyfer pob maen prawf y nodweddion sy'n benodol i wasanaethau cymorth ieuenctid y dylai arolygwyr eu hystyried wrth lunio barnau. Mae hefyd yn nodi'r ffynonellau tystiolaeth a fydd yn eu helpu i wneud hyn.

Byddwn yn defnyddio'r fframwaith arolygu cyffredin a'r arweiniad hwn ar gyfer ystod o waith, gan gynnwys, er enghraifft, arolygu:

- trefniadau partneriaeth ar gyfer cydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn ardal awdurdod lleol;
- gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol;
- prosiect neu ganolfan unigol sy'n darparu gwaith ieuenctid neu wasanaethau cymorth ieuenctid; a
- sefydliad unigol sy'n darparu gwaith ieuenctid neu wasanaethau cymorth ieuenctid; a
- thema benodol mewn gwaith gyda phobl ifanc.

Pan fyddwn yn arolygu gwaith partneriaeth, rydym yn defnyddio adroddiad hunanasesu, cynllun strategol a chynllun cyflwyno'r bartneriaeth i nodi cwmpas y gwasanaethau a ddarperir. Rydym hefyd yn defnyddio cynllun strategol a chynllun cyflwyno darparwyr unigol o fewn y bartneriaeth. Byddwn yn canolbwyntio ar yr agweddau ar waith y darparwr sy'n cyfrannu at agenda'r Bartneriaeth Pobl Ifanc. Byddwn yn cytuno faint o waith a chwmpas y gwaith a fydd yn cael ei arolygu gyda'r bartneriaeth cyn yr arolygiad.

Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar brofiadau pobl ifanc a byddant yn arfarnu ac yn adrodd ar y **saith cwestiwn allweddol** a amlinellir yn y fframwaith arolygu cyffredin, sef:

1 Pa mor dda y mae pobl ifanc yn cyflawni?

2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith â phobl ifanc?

3 Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc a'r gymuned ehangach?

4 Pa mor dda yw'r cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i bobl ifanc?

5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

7 Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Hysbysiad

Bydd Prif Weithredwr awdurdod lleol fel arfer yn cael gwybod am arolygiad rhwng chwech a deuddeg mis ymlaen llaw.

Ailarolygiad

Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer ailarolygiad yr un fath â'r sail gyfreithiol ar gyfer arolygiad. Lle mae darpariaeth yn disgyn islaw'r trothwy, cynhelir ailarolygiad rhwng 12 a 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad fel arfer. Bydd ailarolygiad dim ond fel arfer yn angenrheidiol pan ddyfernir gradd 4 neu 5 i un cwestiwn allweddol neu fwy yn ystod arolygiad. Gallai'r ailarolygiad ganolbwyntio ar un cwestiwn allweddol neu fwy neu gategori o ddarpariaeth.

Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

Mae'r canlynol yn amlinelliad o'r hyn a fydd yn ymddangos yn yr adroddiad arolygu cyn i ni fynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol yn y fframwaith arolygu cyffredin. Mae'n rhoi gwybodaeth fer am natur y bartneriaeth neu'r darparwr a'u blaenoriaethau a'u targedau. Mae'n bwysig cytuno ar gynnwys hyn gyda'r bartneriaeth neu'r darparwr. Mae'r adran hon hefyd yn amlinellu cwmpas yr arolygiad.

❑ natur y darparwr

Beth yw natur y darparwr?

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth fer am:

- faint a natur y bartneriaeth neu'r darparwr unigol a'r ardal y mae'n ei gwasanaethu;
- nodweddion penodol y ddarpariaeth;
- cefndir ac amgylchiadau pobl ifanc, er enghraifft, anfantais neu amddifadedd cymdeithasol, ethnigrwydd a chefndir ieithyddol; ac
- unrhyw newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd yn ddiweddar.

❑ ei flaenoriaethau a'i dargedau

Beth yw blaenoriaethau a thargedau'r darparwr?

Dylai adran hon yr adroddiad gynnwys disgrifiad byr o flaenoriaethau a thargedau'r darparwr. Gallwch gael hyd i wybodaeth am eu prif nodau a'u hamcanion o:

- strategaeth 5 mlynedd a chynlluniau cyflwyno'r bartneriaeth;
- y datganiadau cenhadaeth;
- cynlluniau strategol a chyflwyno;
- adroddiadau hunanasesu;
- cyhoeddi llenyddiaeth gyhoeddusrwydd a llenyddiaeth am raglenni sydd ar gael; a
- thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol.

Bydd arfarniad o'r graddau y mae'r darparwr yn llwyddo i gyflawni'r nodau a'r amcanion hyn, a'r graddau y maent yn cyflwyno Hawliau Cyffredinol i bobl ifanc, yn ymddangos ym mhrif gorff yr adroddiad.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, gan gynnwys:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, y graddau y mae dysgwyr yn:
eu llwyddiant wrth gyflawni nodau dysgu cytûn	1.1 cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau; 1.2 bodloni targedau a nodau dysgu cytûn; 1.3 cyrraedd lefelau priodol mewn medrau allweddol, gan gynnwys gallu dwyieithog; a 1.4 llwyddo, beth bynnag yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. **a'r graddau y mae:** 1.5 canlyniadau a chyfraddau cadw yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol; a'r graddau 1.6 y mae tueddiadau mewn perfformiad yn dangos gwelliant parhaus neu y cynhelir safonau uchel.
eu cynnydd wrth ddysgu	1.7 caffael gwybodaeth neu fedrau newydd, datblygu syniadau ac ehangu eu dealltwriaeth; 1.8 deall yr hyn y maent yn ei wneud, pa mor dda y maent yn gwneud cynnydd a'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud i wella; ac 1.9 yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.
datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu	1.10 dangos cymhelliant, gweithio'n gynhyrchiol ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol; 1.11 ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu eraill; 1.12 cyrraedd lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb; 1.13 datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y medrau angenrheidiol i sicrhau dysgu gydol oes; 1.14 gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol, a'u datblygiad ehangach; 1.15 dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas; ac 1.16 yn barod i gyfranogi'n effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor dda y mae pobl ifanc yn cyflawni?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar y safonau a gyflawnir gan bobl ifanc, gan gynnwys:

- **eu llwyddiant wrth gyflawni nodau dysgu cytûn**

1.1 A yw pobl ifanc yn cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau?

Arfarnwch y graddau y mae pobl ifanc yn cyflawni safonau uchel trwy asesu'r graddau y maent yn:

1.1.1 cyflawni o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn gweithgarwch penodol fel unigolion ac fel grwpiau;
1.1.2 datblygu medrau a diddordebau newydd;
1.1.3 sicrhau cynnydd o ran gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth;
1.1.4 deall y materion y maen nhw, eu cyfoedion a phobl ifanc eraill yn eu hwynebu; ac yn
1.1.5 cyflawni yn erbyn yr egwyddorion a nodir yn Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000) a Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru (Asiantaeth Ieuenctid Cymru 2000).

Arweiniad pellach

Arsylwch sesiynau wedi'u targedu a sesiynau cyffredinol, gweithgareddau ymarferol a gwaith ymgynghori a chyfranogi. Siaradwch â phobl ifanc a gwrandewch arnynt, ac arfarnwch eu datblygiad addysgol, personol a chymdeithasol o ganlyniad i'r gweithgarwch y maent yn cymryd rhan ynddo. Hefyd, mae tystiolaeth ffotograffig neu ar ffilm, llyfrau lloffion, cofnodion ac asesiadau pobl ifanc eu hunain o weithgareddau a gwaith ar gyfer gwobrau yn ffynonellau tystiolaeth defnyddiol o gynnydd a chyflawniad.

Yn enwedig wrth arolygu prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, a'r rheiny sy'n arwain at ryw fath o achredu, arfarnwch unrhyw waith ysgrifenedig ac ymarferol i bennu gwybodaeth a dealltwriaeth y bobl ifanc o'r pwnc neu'r gweithgarwch. Pan osodir amcanion i bobl ifanc unigol neu grwpiau, dylai'r rhain gydweddu â'u hanghenion, a dylai pobl ifanc eu deall. Aseswch gynnydd pobl ifanc yn erbyn y meini prawf yn Natganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru.

Dylid herio'r holl bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau, i sicrhau cynnydd a llwyddo yn eu ffordd eu hunain.

1.2 A yw pobl ifanc yn bodloni targedau a nodau dysgu cytûn?

Arfarnwch pa mor dda y mae pobl ifanc:

1.2.1 yn cyflawni'r safonau a nodir yn y cymwysterau y maent yn gweithio tuag atynt;
1.2.2 wedi symud ymlaen ers iddynt gychwyn ar raglen neu weithgarwch ac yn bodloni eu nodau eu hunain neu unrhyw nodau a drafodwyd gyda nhw;
1.2.3 yn cyflawni gweithgareddau nes eu cwblhau;
1.2.4 mewn prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, yn gwella'u hagweddau blaenorol ac yn cyflawni targedau a osodwyd o ganlyniad i'w hasesiadau cyntaf;
1.2.5 yn sicrhau cymwysterau neu gredydau am eu gwaith; a
1.2.6 lle bo'n briodol, yn gallu dangos bod y cynnydd a wnânt mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid yn gwella'u safonau mewn addysg ffurfiol.

Arweiniad pellach

Ni osodir nodau dysgu a thargedau i bobl ifanc bob amser. Pan gânt eu gosod, fel mewn Cynllun Dysgu Unigol (CDU), gall targedau ar gyfer newidiadau mewn agwedd ac ymddygiad fod yn anodd eu mesur. Er enghraifft, efallai y gosodir targed i unigolyn ifanc heriol sy'n ymwneud â'i ymddygiad dros gyfnod penodol. Bydd staff yn gallu rhoi mathau gwahanol o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth anecdotaidd, o'r ffordd y mae pobl ifanc wedi cyrraedd targedau a nodau. Mae nifer o systemau cydnabyddedig sy'n mesur cynnydd personol pobl ifanc, gan gynnwys deallusrwydd emosiynol. Bydd angen i chi archwilio a yw rheolwyr a staff yn defnyddio mecanweithiau ar gyfer cofnodi ac asesu pob mathau o gyflawniad.

1.3 A yw pobl ifanc yn cyrraedd lefelau priodol mewn medrau allweddol, gan gynnwys gallu dwyieithog?

Arfarnwch pa mor dda y mae pobl ifanc:

1.3.1 yn gwella'u medrau mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
1.3.2 yn datblygu medrau ehangach datrys problemau, gweithio gydag eraill ac adolygu eu perfformiad dysgu eu hunain;
1.3.3 pan fo hynny'n berthnasol, er enghraifft mewn prosiectau ieuenctid sy'n cynnal dysgu ffurfiol, yn cyflawni'r safonau sy'n briodol i'r cymwysterau a'r rhaglenni y maent yn eu dilyn; a
1.3.4 phan fo hynny'n briodol, sicrhau gallu dwyieithog y Gymraeg a'r Saesneg.

Arweiniad pellach

Gweler yr Arweiniad ar Arolygu Dwyieithrwydd

1.4 A yw pobl ifanc yn llwyddo, beth bynnag yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol?

Arfarnwch y graddau y mae pob unigolyn ifanc yn:

1.4.1 ymwneud yn weithredol â'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael; a

1.4.2 llwyddo beth bynnag yw eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol.

1.5 A yw'r canlyniadau a'r cyfraddau cadw yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol?

Arfarnwch y graddau y mae:

1.5.1 canlyniadau pobl ifanc yn cymharu'n ffafriol â'r rhai y mae pobl ifanc sy'n cael gwasanaethau tebyg mewn mannau eraill yn eu cyflawni;

1.5.2 pan fo hynny'n briodol, er enghraifft mewn prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, y graddau y mae canlyniadau a chyfraddau cadw pobl ifanc yn cymharu â rhai pobl ifanc yn nysgu'r brif ffrwd;

1.5.3 y mae pobl ifanc nad ydynt yn anelu i gyflawni cymhwyster yn cwblhau cynlluniau dysgu unigol ac yn cyflawni amcanion dysgu; ac y mae

1.5.4 pobl ifanc yn cyflawni yn erbyn targedau'r darparwr ei hun.

Arweiniad pellach

Nid yw'r datganiad ansawdd hwn yn berthnasol i bob mathau o wasanaeth cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, mae darparwyr yn dod yn fwyfwy medrus wrth ddarparu tystiolaeth o gyflawniadau pobl ifanc a gwneud cymariaethau.

Nid yw data meincnodi cenedlaethol yn delio â chanlyniadau a chyfraddau cadw, ond efallai y bydd partneriaethau pobl ifanc, awdurdodau lleol a phrosiectau unigol wedi casglu eu data lleol eu hunain. Os yw hyn yn wir, dadansoddwch y wybodaeth hon gan lunio barn yn ei chylch.

1.6 A yw'r tueddiadau mewn perfformiad yn dangos gwelliant parhaus neu bod safonau uchel yn cael eu cynnal?

Pan fo modd, arfarnwch dueddiadau mewn perfformiad trwy:

1.6.1 ddadansoddi unrhyw ddata sydd ar gael gan ddarparwyr unigol neu'r bartneriaeth pobl ifanc, er mwyn asesu unrhyw gynnydd yn natblygiad a pherfformiad pobl ifanc;

1.6.2 gwneud cymariaethau trwy ddefnyddio'r data sydd ar gael ynghylch perfformiad pobl ifanc cyn i'r gwasanaethau cymorth ieuenctid ymyrryd, megis prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd ag ymddygiad troseddol; a

1.6.3 dadansoddi data i weld sut mae tueddiadau o ran perfformiad yn cymharu â'r rheiny mewn darparwyr neu brosiectau tebyg.

- **eu cynnydd wrth ddysgu**

1.7 A yw pobl ifanc yn caffael gwybodaeth neu fedrau newydd, yn datblygu syniadau ac yn ehangu eu dealltwriaeth?

Arfarnwch pa mor bell y mae pobl ifanc yn:

1.7.1 dangos gallu cynyddol i wneud dewisiadau a dylanwadu ar ddigwyddiadau yn eu bywydau a'u cymunedau eu hunain;
1.7.2 ceisio ymgymryd â rolau uwch ymhlith eu cyfoedion neu yn y gymuned; ac
1.7.3 yn cyfranogi mewn modd aeddfed mewn gweithgareddau ymgynghori ynghylch materion yn ymwneud â nhw neu bobl eraill.

Arweiniad pellach

Dylech ystyried gwerth y gweithgarwch y mae'r bobl ifanc yn ymwneud ag ef, siarad â nhw a phenderfynu a yw'n eu helpu i sicrhau cynnydd ac aeddfedu. Ystyriwch y graddau y maent yn caffael gwybodaeth newydd ac yn datblygu medrau a diddordebau newydd. Barnwch effeithiolrwydd y gweithgarwch wrth gynyddu eu dealltwriaeth, eu hunanymwybyddiaeth a'u sensitifrwydd i anghenion eraill.

1.8 A yw pobl ifanc yn deall yr hyn a wnânt, pa mor dda y maent yn gwneud cynnydd a'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud i wella?

Arfarnwch y graddau y mae pobl ifanc yn:

1.8.1 bartneriaid yn y broses ddysgu ac mewn strwythurau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill;
1.8.2 gallu esbonio diben eu gweithgarwch a'r nodau y maent yn gweithio tuag atynt;
1.8.3 dangos blaengaredd wrth chwilio am wybodaeth a'i defnyddio;
1.8.4 cyfleu ymdeimlad o gyflawniad neu fwynhad yn yr hyn y maent yn ei wneud;
1.8.5 ymwneud ag adolygiadau cyson o'u cynnydd ac yn deall diben eu gweithgareddau; ac yn
1.8.6 deall diben targedau a chynlluniau gweithredu ac yn gwneud cynnydd o ganlyniad i hynny.

Arweiniad pellach

Siaradwch â phobl ifanc am y gweithgareddau y maent yn ymwneud â nhw. Gofynnwch iddynt ddisgrifio'r hyn y maent yn ei wneud ac arfarnu'r cynnydd y maent yn ei sicrhau. Efallai y byddwch yn dymuno gofyn iddynt sut y byddai modd gwella'r gweithgarwch a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn elwa mwy ar yr hyn a wnânt.

1.9 A yw pobl ifanc yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf?

Arfarnwch raddau cynnydd pobl ifanc drwy asesu eu:

1.1.1 cynnydd wrth gyfrannu at gynllunio a rhedeg eu prosiectau/gweithgareddau eu hunain;
1.1.2 gallu i reoli eu sesiynau ymgynghori eu hunain a hwyluso ymgynghori â phobl ifanc eraill;
1.1.3 hunanymwybyddiaeth a'u gallu i wneud penderfyniadau rhesymegol; a'u
1.1.4 parodrwydd i symud ymlaen at weithgareddau dysgu mwy heriol.

Arweiniad pellach

Gofynnwch i bobl ifanc sut y maent yn teimlo eu bod wedi elwa ar eu gweithgarwch a sut y maent yn ystyried eu bod wedi symud ymlaen a datblygu o ganlyniad iddo. Mewn prosiectau wedi'u targedu a phrosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, arfarnwch gyflawniadau pobl ifanc a chymharu hyn gyda'r hyn y gallent ei wneud pan wnaethant gychwyn. Aseswch y graddau y mae pobl ifanc wedi sicrhau medrau a chael gwybodaeth ychwanegol y tu hwnt i'r rhai y disgwyliwyd iddynt eu sicrhau ar ddechrau'r prosiect neu weithgarwch.

- **datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu**

1.10 A yw pobl ifanc yn dangos cymhelliant, yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn defnyddio'u hamser yn effeithiol?

Arfarnwch ymrwymiad ac ymdrech pobl ifanc drwy arfarnu:

1.10.1 pa mor effeithiol y maent yn defnyddio'r amser a gaiff ei dreulio ar weithgareddau i ddatblygu ac ymarfer eu medrau ac ymestyn eu gwybodaeth;
1.10.2 pa mor dda y maent yn cynllunio ac yn trefnu eu gweithgareddau eu hunain, a gweithgareddau i eraill;
1.10.3 y graddau y maent yn gyfranogwyr gweithredol neu'n dderbynwyr gwasanaethau goddefol; ac
1.10.4 aseswch pa mor effeithiol y mae pobl ifanc yn defnyddio amser heb ei oruchwylio ac yn cyfeirio'u dysgu eu hunain.

Arweiniad pellach

Aseswch pa mor bwrpasol y mae pobl ifanc yn cyfranogi mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Gallant fod yn mynychu clwb ieuenctid neu weithgarwch am resymau hamdden yn unig, ond siaradwch â'r bobl ifanc, ac arfarnwch pa mor dda y maent yn ymateb i ymyrraeth gan weithwyr ieuenctid.

1.11 A yw pobl ifanc yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu eraill?

Arfarnwch ymddygiad pobl ifanc ar sail:

1.11.1 y graddau y maent yn ffurfio ac yn cynnal perthynas dda gyda staff, oedolion eraill a phobl ifanc eraill;
1.11.2 mwy o hunan-barch ac aeddfedrwydd cynyddol yn eu perthynas ag oedolion a chyfoedion;
1.11.3 eu sensitifrwydd tuag at anghenion eraill a'u gallu a'u parodrwydd i gydweithredu; a'u
1.11.4 gallu i fod yn gyfrifol am eu hunain ac eraill.

1.12 A yw pobl ifanc yn cyflawni lefelau uchel o ran presenoldeb a phrydlondeb?

Arfarnwch:

1.12.1 y lefelau presenoldeb mewn prosiectau mynediad agored ac wedi'u targedu, a gwasanaethau eraill, gan gymharu'r rhain gydag unrhyw wybodaeth feincnodi leol neu genedlaethol; a
1.12.2 phresenoldeb a phrydlondeb pobl ifanc drwy arsylwi a thrwy archwilio cofrestrau.

Arweiniad pellach

Ystyriwch broffiliau presenoldeb a llunio barn ynghylch y patrymau presenoldeb, gan gofio natur y prosiect.

Dylech ystyried:

- pa mor aml y mae pobl ifanc yn mynychu;
- ystod oed y cyfranogwyr;
- grwpiau cymdeithasol;
- graddfa orfodaeth neu natur wirfoddol y gweithgarwch;
- ethnigrwydd a rhyw; ac
- anabledd.

Lluniwch farn gyffredinol ynghylch y graddau y mae pobl ifanc yn cynnal eu diddordeb a'u cyfranogiad yn y ddarpariaeth.

Arweiniad pellach

Pan fo'n berthnasol, cymharwch â'r presenoldeb blaenorol mewn darpariaeth addysg neu hyfforddiant ac arfarnu effeithiolrwydd y prosiect wrth wella presenoldeb a phrydlondeb. Bydd angen i chi ystyried a yw/pam y mae pobl ifanc yn mynychu'n fwy rheolaidd a/neu yn fwy prydlon, a'r mesurau ychwanegol y gall y prosiect eu cymryd, fel casglu pobl ifanc o'u cartref, neu helpu gyda chostau bws neu gostau cludiant eraill. Mewn prosiectau lle mae pobl ifanc dan oruchwyliaeth y TTI, ystyriwch welliannau mewn presenoldeb a phrydlondeb.

1.13 A yw pobl ifanc yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y medrau angenrheidiol i sicrhau dysgu gydol oes?

Arfarnwch pa mor dda y mae pobl ifanc yn gallu:

1.13.1 trefnu a chynnal gweithgareddau a phrosiectau drostynt eu hunain ac eraill;
1.13.2 gweithredu ar wybodaeth a chyngor a roddir iddynt;
1.13.3 chwilio am wybodaeth am y materion sy'n effeithio ar bobl ifanc ar eu pen eu hunain;
1.13.4 trosglwyddo gwybodaeth i eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gyda chyfoedion;
1.13.5 gosod eu targedau eu hunain yn effeithiol a datblygu eu medrau dysgu eu hunain;
1.13.6 gweithredu heb fod yn rhy ddibynnol ar staff; a
1.13.7 gwybod ymhle, sut a pha bryd y gallant gael mynediad i'w hawliau.

1.14 A yw pobl ifanc yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol, a'u datblygiad ehangach?

Arfarnwch gynnydd pobl ifanc drwy asesu'r graddau y maent yn:

1.14.1 dangos ymwybyddiaeth o'r materion y maent yn eu hwynebu. Gallai'r rhain gynnwys:

- addysg a hyfforddiant;
- cyflogaeth a chyngor am yrfa;
- byw'n annibynnol;
- perthnasoedd;
- addysg iechyd a rhyw;
- bod yn rhieni;
- cam-drin cyffuriau ac alcohol;
- gwybodaeth a mynediad i wasanaethau;
- ymddygiad troseddol;
- arian a dyled;
- tai; a
- materion lleol.

1.14.2 mwynhau eu gweithgareddau;
1.14.3 datblygu eu medrau ehangach trwy gyfranogi mewn gweithgareddau a rhyngweithio ag eraill;
1.14.4 cynyddu lefel eu hyder a'u hunanbarch;
1.14.5 pan fo hynny'n briodol, symud ymlaen o ran targedau a bennwyd i wella ymddygiad; a
1.14.6 dangos parch i'w cyfoedion ac eraill y dônt i gyswllt â hwy.

Arweiniad pellach

Darganfod a oes siartr ieuenctid neu god cyfranogiad ac asesu'r cyfraniad y mae pobl ifanc wedi'i wneud i'w ddatblygu a'i weithredu. A yw pobl ifanc yn deall y negeseuon moesol sy'n sylfaenol i rai mathau o weithgareddau? e.e. prosiectau atal troseddau ac addysg rhyw.

1.15 A yw pobl ifanc yn dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas?

Arfarnwch:

1.15.1 pa mor bell y mae pobl ifanc yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eraill, beth bynnag yw eu hil, eu diwylliant, eu hanabledd neu eu hoedran;
1.15.2 y graddau y mae pobl ifanc yn ymwybodol o ieithoedd, diwylliannau a chredoau eraill;
1.15.3 eu hymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a materion dwyieithog, a diwylliant Cymru;
1.15.4 aeddfedrwydd ymwybyddiaeth pobl ifanc o fywyd y tu allan i'w cymunedau eu hunain a'u parodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd i deithio; a'r
1.15.5 graddau y mae pobl ifanc yn herio barnau ystrydebol eraill.

Arweiniad pellach

Penderfynwch i ba raddau y mae gweithgareddau ar gyfer un rhyw penodol ac a yw sesiynau a/neu weithgareddau'n cynnwys un rhyw neu grŵp o bobl ifanc yn fwy nag eraill, gan eithrio eraill. Aseswch y graddau y mae'r bobl ifanc yn derbyn pobl ifanc eraill i'w darpariaeth 'nhw'.

1.16 A yw pobl ifanc yn barod i gyfranogi'n effeithiol yn y gweithle a'r gymuned?

Arfarnwch pa mor dda y mae pobl ifanc yn:

1.16.1 dangos y medrau y mae eu hangen yn y gweithle a dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau cyflogwyr;
1.16.2 ystyried eraill a dealltwriaeth o'u problemau, eu hanghenion a'u pryderon;
1.16.3 meithrin medrau cymdeithasol a rhyngbersonol ehangach;
1.16.4 manteisio'n effeithiol ar gyfleoedd i wirfoddoli yn y gymuned;
1.16.5 ymwybodol o'r materion y mae'r cymunedau y maent yn byw ynddynt yn eu hwynebu; ac
1.16.6 yn ymwybodol o'r materion ehangach sy'n wynebu Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, y graddau y mae athrawon a hyfforddwyr yn:
pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn bodloni anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs	2.1 ysgogi a herio dysgwyr i gyflawni rhagoriaeth; 2.2 sicrhau perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu; 2.3 dangos gwybodaeth bynciol dda ac yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddar yn eu maes; 2.4 cynllunio'n effeithiol ac yn meddu ar amcanion clir y mae disgyblion yn eu deall ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill; 2.5 defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol dysgwyr; 2.6 hyrwyddo cyfle cyfartal a delio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anabledd mewn ffordd weithredol; 2.7 bodloni anghenion ieithyddol y dysgwr, gan gynnwys darparu mynediad i addysgu a hyfforddi dwyieithog; a 2.8 chynllunio i fodloni anghenion unigol dysgwyr mewn ffordd hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd.
trylwyredd asesu a'r defnydd a wneir ohono i gynllunio a gwella dysgu	2.9 asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd; 2.10 bodloni gofynion statudol a gofynion cyrff rheoleiddio ar gyfer cofnodi ac achredu cyflawniadau dysgwyr; 2.11 sicrhau bod dysgwyr yn deall diben asesu ac yn ymwneud â chynllunio'u cynnydd a'u gwelliant eu hunain; a 2.12 hysbysu'r rhai sydd â diddordeb cyfiawn yng nghynnydd a chyflawniadau dysgwyr.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor effeithiol yw'r gwaith gyda phobl ifanc a'r asesu?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar:

- **ba mor dda y mae'r gwaith gyda phobl ifanc yn bodloni anghenion pobl ifanc a'r gofynion cwricwlaidd neu ofynion y cwrs**

2.1 A yw staff yn ysgogi ac yn herio pobl ifanc i gyflawni rhagoriaeth?

Arfarnwch pa mor effeithiol y mae staff yn:

2.1.1 annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau;
2.1.2 eu hysbrydoli i ragori mewn amrywiaeth eang o weithgareddau;
2.1.3 eu helpu i symud o ddibyniaeth i annibyniaeth;
2.1.4 helpu pobl ifanc i aeddfedu;
2.1.5 paratoi pobl ifanc am rôl fel dinasyddion gweithredol yn eu cymunedau; ac
2.1.6 yn eu paratoi ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a byd gwaith.

Arweiniad pellach

Arfarnwch pa mor bell y caiff pobl ifanc eu cymell i sicrhau rhagoriaeth oherwydd y cynigir ystod eang o gyfleoedd a gweithgareddau heriol, diddorol a chyffrous iddynt. Penderfynwch pa mor effeithiol y mae staff yn defnyddio'u perthynas gyda phobl ifanc i'w hysbrydoli a'u hannog i gyflawni. A ydynt yn gweithio i waredu rhwystrau tuag at gyflawniad pobl ifanc? Faint o ystyriaeth, dealltwriaeth a gwybodaeth sydd gan staff o'r Deg Hawl (Atodiad A) a Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru (Atodiad B). Ystyriwch sut y mae gwaith gyda phobl ifanc yn eu helpu i ddeall a gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Dylai staff gael disgwyliadau uchel o bob unigolyn ifanc. Dylent roi adborth i bobl ifanc am eu cyflawniadau a dathlu eu cyfranogiad a'u llwyddiant trwy gyfrwng cyhoeddusrwydd, gwobrau a digwyddiadau dathlu.

2.2 A yw staff yn sefydlu perthynas weithio dda sy'n meithrin dysgu?

Arfarnwch y graddau y mae staff yn:

2.2.1 ffurfio ac yn cynnal perthynas adeiladol gyda phobl ifanc lle ceir parch ar y ddwy ochr, wedi'i seilio ar gyfeillgarwch ac ymddiriedaeth sy'n arwain at gynnydd effeithiol;
2.2.2 meithrin awyrgylch cadarnhaol yn y ganolfan, y prosiect neu'r gweithgarwch;
2.2.3 uniaethu â phobl ifanc fel unigolion, neu fel grwpiau;
2.2.4 annog pobl ifanc i ryngweithio ag eraill a chymryd rhan mewn dysgu cyfrannol trwy gyfrwng gweithgareddau grŵp;
2.2.5 gweithio gyda'i gilydd a gyda phobl ifanc i gynllunio gweithgareddau i bobl ifanc; a

2.2.6 gweithio'n effeithiol yn y bartneriaeth pobl ifanc, ar draws sectorau ac mewn asiantaethau gwirfoddol i ddarparu gweithgareddau amrywiol ac integredig.

2.3 A yw staff yn dangos gwybodaeth dda o'r pwnc ac yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddar yn eu maes?

Arfarnwch a yw staff yn ddigon ymwybodol a gwybodus am eu cyfrifoldebau ac yn cyflawni'u cyfrifoldebau i bobl ifanc mewn perthynas â:

2.3.1 Ymestyn Hawliau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i bobl ifanc;
2.3.2 Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru;
2.3.3 y materion y mae pobl ifanc a diwylliant yr ifanc yn eu hwynebu;
2.3.4 y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, a materion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol;
2.3.5 amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed; iechyd a diogelwch a gofynion cyfreithiol eraill wrth weithio gyda phobl ifanc;
2.3.6 gwasanaethau gwybodaeth a gwasanaethau arbenigol eraill i bobl ifanc;
2.3.7 dulliau o ymgynghori â phobl ifanc; ac
2.3.8 anghenion medrau sylfaenol a medrau allweddol pobl ifanc.

Arweiniad pellach

Ystyriwch y graddau y mae staff yn sensitif i anghenion pobl ifanc ac i faterion ac amgylchiadau yn y gymuned leol. Barnwch i ba raddau y maent yn cyfarfod â gweithwyr eraill yn y bartneriaeth pobl ifanc ac o sefydliadau eraill i ddiweddaru eu gwybodaeth a rhannu profiad ac arfer dda.

2.4 A yw staff yn cynllunio'n effeithiol ac yn meddu ar amcanion clir ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill y mae pobl ifanc yn eu deall?

Arfarnwch pa mor dda y mae staff yn cynllunio gwaith gyda phobl ifanc. Dylai'r cynllunio hwn fodloni anghenion pobl ifanc, gofynion Ymestyn Hawliau a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl ifanc. Pan fo hynny'n berthnasol, dylai'r cynlluniau fodloni gofynion cyrff dyfarnu, a bodloni gofynion iechyd a diogelwch ac amddiffyn. Dylai cynlluniau nodi sut y bydd staff yn ceisio:

2.4.1 cadw pobl ifanc yn ddiogel;
2.4.2 datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau pobl ifanc;
2.4.3 addasu'r gwaith i fodloni anghenion pobl ifanc sydd â gwahanol alluoedd ac sy'n gweithio ar wahanol gyflymder;
2.4.4 cynnwys gwybodaeth am yr adnoddau y mae eu hangen, gan gynnwys deunyddiau cymorth dysgu;
2.4.5 darparu strategaethau rheoli ymddygiad;
2.4.6 neilltuo amser i ddelio â phroblemau personol pobl ifanc pan fyddant yn codi; a

2.4.7 nodi gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau dysgu disgwyliedig mewn cynlluniau a'u rhannu gyda phobl ifanc, er mwyn iddynt allu deall yr hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni mewn sesiynau unigol yn ogystal ag yn y rhaglen gyffredinol.

Arweiniad pellach

Dylai pob aelod o staff gynllunio'n effeithiol a chael amcanion eglur ar gyfer pob math o ddarpariaeth, gan gynnwys mynediad agored, gwaith grŵp, gwaith yn cael ei arwain gan gymheiriaid, gwaith ymgynghori, gwaith gwybodaeth, sesiynau symudol, sesiynau galw i mewn a gwaith allymestyn a gwaith ar wahân. Dylech ystyried pa mor addas a phwrpasol yw gweithgareddau a pha mor dda y cawsant eu cynllunio ar gyfer y bobl ifanc benodol sy'n manteisio arnynt. Penderfynwch pa mor ddefnyddiol yw'r amcanion a'r targedau. Ystyriwch y graddau y mae pobl ifanc yn ymwneud â'r prosesau cynllunio a pha mor ymwybodol ydynt o ddibenion eu gweithgarwch.

Ystyriwch pa mor dda y mae'r cynllunio ar gyfer sesiynau unigol yn cyd-fynd â chynllun cyflwyno y bartneriaeth pobl ifanc, a chynlluniau a gweithgareddau darparwyr eraill yn yr ardal.

2.5 A yw staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu a hyfforddi ac adnoddau sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan weithredol?

Arfarnwch pa mor dda y mae staff yn:

2.5.1 cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a chyflwyno gweithgareddau;
2.5.2 defnyddio ystod eang o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau fel ffordd o gynnwys pobl ifanc mewn dysgu;
2.5.3 annog pobl ifanc i feddwl yn annibynnol a chwilio am wybodaeth drostynt eu hunain;
2.5.4 defnyddio amrywiaeth o fedrau a strategaethau arwain i gynnwys pobl ifanc;
2.5.5 cyfathrebu'n effeithiol, ysgogi diddordeb a chymell pob unigolyn ifanc;
2.5.6 datblygu gallu pobl ifanc i weithredu a dysgu'n annibynnol;
2.5.7 ystyried anghenion dysgu unigol a defnyddio dulliau priodol i ymestyn cyfranogwyr cryfach a chynnal cyfranogwyr gwannach;
2.5.8 herio pobl ifanc a'u hannog i fwynhau eu gweithgarwch; a
2.5.9 dangos sensitifrwydd tuag at bobl ifanc a delio'n briodol â'r rhai nad ydynt yn dymuno cyfranogi ar adeg benodol neu mewn gweithgarwch penodol.

Arweiniad pellach

Defnyddiwch arsylwi a thrafodaeth i arfarnu'r graddau y mae staff yn arloesol ac yn cynllunio gweithgareddau heriol i bobl ifanc. A yw'r gwaith gyda phobl ifanc yn cyfrannu at ddatblygiad pobl ifanc?

Aseswch y ffordd y defnyddir TGCh ac offer arall i wella gwaith gyda phobl ifanc. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio:

- cyfrifiaduron sydd ar gael i wneud gwaith cartref a gwaith ymchwil;
- technoleg i wella'r profiad dysgu;
- pwyntiau gwybodaeth; a
- mynediad i'r Rhyngrwyd a gaiff ei reoli'n briodol.

Ai bechgyn sy'n defnyddio offer TGCh fwyaf neu a gaiff ei ddefnyddio yn amhriodol? Aseswch ystod a'r defnydd a wneir o offer arall, gan gynnwys gorddibyniaeth ar fyrddau pŵl a thenis bwrdd.

2.6 A yw staff yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn mynd i'r afael yn weithredol â chydraddoldeb rhyw, hil ac anabledd?

Aseswch pa mor dda y mae staff yn:

2.6.1 hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn herio delweddau a barnau ystrydebol gydol y ddarpariaeth;
2.6.2 trin yr holl bobl ifanc yn gyfartal, beth bynnag yw eu hil, eu rhyw neu anabledd;
2.6.3 herio ystyriaethau ynghylch rolau'r ddau ryw; ac
2.6.4 yn hyrwyddo'n weithgar cynnwys pobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu ac anableddau corfforol.

Arweiniad pellach

Ni ddylai gweithgareddau, meddalwedd TGCh nac unrhyw ddeunyddiau dysgu neu hamdden eraill gynnwys unrhyw gyfeiriadau at ryw, hil, crefydd neu anableddau a allai frifo teimladau pobl ifanc neu a allai beri iddynt beidio â chyfranogi.

2.7 A yw staff yn ateb anghenion iaith y bobl ifanc, gan gynnwys darparu mynediad i addysgu a hyfforddi dwyieithog?

Arfarnwch pa mor dda y mae staff yn bodloni anghenion dewis ieithyddol pobl ifanc trwy:

2.7.1 ddarparu gweithgareddau'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg;
2.7.2 gweithredu'r strategaeth Iaith Gymraeg y cytunwyd arni ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghymru – 'Agor y ddau Ddrws'.
2.7.3 darparu gwasanaethau gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg;
2.7.4 pan fo hynny'n rhesymol ac yn briodol, darparu darpariaeth addas mewn ieithoedd ethnig lleiafrifol; a

2.7.5 threfnu cymorth iaith arwyddion i bobl ifanc y mae arnynt ei hangen.

Arweiniad pellach

Cyfeiriwch at yr Arweiniad ar Arolygu Dwyieithrwydd.

2.8 A yw staff yn cynllunio er mwyn ateb anghenion unigol pobl ifanc mewn ffordd hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd?

Arfarnwch pa mor dda y mae staff yn:

2.8.1 cynllunio gweithgareddau i fodloni anghenion unigolion a grwpiau penodol;
2.8.2 targedu mathau o waith a gweithgareddau priodol gyda phobl ifanc pan fo angen penodol, naill ai o ran pobl ifanc neu gymunedau;
2.8.3 chwilio am gymorth a chyngor arbenigol i bobl ifanc pan fydd eu hangen;
2.8.4 cydweithio gyda phartneriaid i fodloni anghenion unigol ac anghenion grŵp pobl ifanc;
2.8.5 cynnwys pobl ifanc wrth fonitro ac adolygu eu cynnydd;
2.8.6 sicrhau gwybodaeth ymlaen llaw am bobl ifanc unigol er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth;
2.8.7 asesu medrau, galluoedd a chymwyseddau pobl ifanc pan fyddant yn cychwyn ar y prosiect;
2.8.8 gosod targedau heriol sy'n briodol i bobl ifanc unigol;
2.8.9 trefnu i ddarparu cymorth ychwanegol gyda llythrennedd a/neu rhifedd lle mae'r anghenion hyn wedi'u nodi; a
2.8.10 monitro ac adrodd ar gynnydd pobl ifanc, a'u cynnwys wrth adolygu eu gwaith eu hunain.

- **trylwyredd asesu a'r defnydd a wneir ohono i gynllunio a gwella dysgu**

2.9 A yw staff yn asesu cyflawniadau a chynnydd pobl ifanc yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd?

Arfarnwch y graddau y mae staff yn:

2.9.1 datblygu amrywiaeth o ffyrdd o asesu cynnydd a chyflawniadau pobl ifanc;
2.9.2 cadw cofnodion unigol a grŵp priodol, wedi'u harfarnu, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf;
2.9.3 cofnodi cyflawniadau mewn ffordd ddychmygus, eglur a systematig;
2.9.4 rhannu'r cyflawniadau hyn gyda staff mewn lleoliadau eraill sy'n delio â'r un bobl ifanc ac asesu effaith y cynnydd a wneir mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid ar gyflawniadau ffurfiol y bobl ifanc;
2.9.5 sicrhau achrediad ac ardystiad i waith pobl ifanc pan fo hynny'n briodol;
2.9.6 trafod cynnydd a chyflawniadau pobl ifanc gyda nhw;
2.9.7 cynnal asesiadau rheolaidd sy'n cyfrannu'n llawn tuag at helpu pobl ifanc i gyflawni eu hamcanion dysgu a'u hamcanion eraill;

2.9.8 rhoi adborth i bobl ifanc er mwyn iddynt gael gwybod sut y maent yn dod yn eu blaenau; ac
2.9.9 annog pobl ifanc i wella'u perfformiad eu hunain.

Staff mewn lleoliadau dysgu ffurfiol (ysgolion a cholegau)

Aseswch pa mor dda y mae staff yn:

2.9.10 ystyried y cyflawniadau a'r cynnydd a wneir gan bobl ifanc mewn lleoliadau gwasanaethau cymorth ieuenctid wrth fesur a chofnodi cyflawniad a chyrhaeddiad ffurfiol pobl ifanc.

Arweiniad pellach

Aseswch dystiolaeth o gyflawniadau pobl ifanc a gasglwyd gan brosiect neu ganolfan. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth ffotograffig neu ar ffilm. Dylech ystyried tystiolaeth o gynnydd pobl ifanc, neu gamau cynyddol a gymerir mewn medrau bywyd cyffredinol ac aeddfedrwydd. Mae llawer o staff bellach yn dod o hyd i ffyrdd gwahanol i achredu gwaith mwy ffurfiol pobl ifanc neu ddatblygiad eu medrau. Efallai bod pobl ifanc yn datblygu'u medrau bywyd a'u deallusrwydd emosiynol. Nodwch dystiolaeth o hyn a chasglwch unrhyw ddata sydd ar gael.

Siaradwch â phobl ifanc a staff. Mae tystiolaeth anecdotaidd rhesymol o gynnydd a chyflawniad pobl ifanc yn dderbyniol ond os oes modd, dylid ei ddilysu, o fewn rheswm.

2.10 A yw staff yn bodloni gofynion statudol a gofynion cyrff rheoleiddio ar gyfer cofnodi ac achredu cyflawniadau pobl ifanc?

Arfarnwch dystiolaeth i sicrhau bod:

2.10.1 trefniadau priodol ar waith i fodloni meini prawf asesu y cyrff dyfarnu.

Arweiniad pellach

Gall cyrff neu systemau dyfarnu gynnwys Rhwydwaith y Coleg Agored, Gwobr Dug Caeredin a Gwobrau Cyflawniad Ieuenctid. Mewn prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, gall pobl ifanc fod yn gweithio tuag at gymwysterau eraill mwy traddodiadol. Ystyriwch sut y rheolir y broses hon ac os yw gweithdrefnau a threfniadau'n foddhaol.

2.11 A yw staff yn sicrhau bod y bobl ifanc yn deall diben asesu ac a ydynt yn cymryd rhan wrth gynllunio eu cynnydd a'u gwelliant eu hunain?

Arfarnwch y graddau y mae staff yn sicrhau bod:

2.11.1 pobl ifanc yn deall diben asesu a sut y maent yn cyflawni'r hyn y maent yn ei gyflawni; a'u
2.11.2 bod yn ymwneud ag asesu eu cynnydd eu hunain.

Cyngor pellach

Arfarnwch y graddau y mae arfarnu, asesu a sicrhau gwobrau a chymwysterau yn rhoi ymdeimlad i bobl ifanc o'u cyflawniad a'u hunanwerth.

2.12 A yw staff yn hysbysu'r rhai sydd â diddordeb cyfiawn am gynnydd a chyflawniad pobl ifanc?

Arfarnwch pa mor bell y mae staff yn:

2.12.1 defnyddio systemau effeithlon i hysbysu gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau partner am gynnydd a chyflawniadau pobl ifanc;
2.12.2 mewn prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, sicrhau bod ysgolion a cholegau'n ymwybodol o ba mor dda y mae pobl ifanc yn datblygu;
2.12.3 sicrhau bod rhieni neu warcheidwaid yn ymwybodol o gyflawniadau pobl ifanc pan fo hynny'n briodol; ac
2.12.4 yn dathlu cyflawniadau pobl ifanc.

Arweiniad pellach

Efallai y bydd staff yn gorfod adrodd ar gynnydd grŵp neu bobl ifanc unigol i athrawon, gweithwyr cymdeithasol, timau troseddau ieuenctid (TTI), rheolwyr, y bartneriaeth pobl ifanc neu Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ystyriwch a yw pobl ifanc yn ymwneud yn llawn â'r broses hon ac a ofynnir am eu caniatâd i rannu gwybodaeth, pan fo hynny'n briodol.

Aseswch effeithiolrwydd y fecanwaith i hysbysu'r ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill am gynnydd a chyflawniadau unigolyn ifanc. Dylai ysgolion a darparwyr gwasanaethau cymorth fod yn ymwybodol ill dau o gynnydd a chyflawniadau pobl ifanc. Dylent wybod hefyd pa effaith a gaiff gwasanaethau cymorth ar y cyflawniadau hyn. Mae pobl ifanc yn cael cymorth amrywiaeth o weithwyr proffesiynol; mae angen i staff fod yn ymwybodol o gyfraniadau'r holl ddarparwyr. Aseswch effeithiolrwydd protocolau Cadw mewn Cysylltiad wrth alluogi staff i gynorthwyo pobl ifanc yn dda.

Cwestiwn allweddol 3:	**Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc a'r gymuned ehangach?**

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, lle mae'n berthnasol, y graddau y mae profiadau dysgu yn:
y graddau y mae profiadau dysgu yn ateb anghenion a diddordebau dysgwyr	3.1 ateb dyheadau dysgwyr a, phan fo hynny'n briodol, yn rhoi'r cyfle iddynt gael achrediad; 3.2 darparu cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlyniaeth a dilyniant; 3.3 datblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol dysgwyr; 3.4 ehangu a chyfoethogi profiad dysgwyr, trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau ysgol ac oddi ar y safle; 3.5 hyrwyddo datblygiad personol dysgwyr, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol; 3.6 cael eu cyfoethogi gan bartneriaethau effeithiol â darparwyr eraill a gyda phawb arall sydd â diddordeb; ac 3.7 yn bodloni gofynion y cwrs a gofynion cyfreithiol.
y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach	3.8 darparu addysg gysylltiedig â gwaith; 3.9 hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr ac adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru; 3.10 mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a stereoteipio, a sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle cyfartal i bob dysgwr; 3.11 hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy; 3.12 ystyried anghenion cyflogwyr; 3.13 datblygu'r medrau entreprenuraidd a'r medrau eraill sy'n angenrheidiol i gynnal datblygiad economaidd; ac 3.14 adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywio cymunedol.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau pobl ifanc a'r gymuned ehangach?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar:

- **y graddau y mae'r profiadau dysgu'n bodloni anghenion a diddordebau pobl ifanc**

3.1 A yw'r profiadau dysgu yn bodloni dyheadau pobl ifanc a, lle mae hynny'n briodol, yn rhoi cyfle iddynt gael achrediad?

Arfarnwch y graddau y mae darparwyr a staff:

3.1.1 yn darparu neu'n cynorthwyo mynediad i lwybrau dysgu 14-19 priodol ar gyfer pobl ifanc;
3.1.2 yn darparu gweithgareddau a gwasanaethau sy'n briodol i anghenion a dyheadau pobl ifanc;
3.1.3 wedi ymgynghori â phobl ifanc ynghylch y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt;
3.1.4 yn darparu'r wybodaeth y mae ei hangen ar bobl ifanc mewn lleoliadau y mae'n hawdd eu cyrraedd ac ar adegau priodol;
3.1.5 yn sicrhau bod gweithgareddau a gwasanaethau'n llwyddo i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu;
3.1.6 yn sicrhau bod gweithgareddau'n ddiogel, yn bwrpasol, yn heriol, yn ddifyr ac yn gyffrous; ac
3.1.7 yn cynnig ystod o gyfleoedd i bobl ifanc sicrhau achrediad priodol.

3.2 A yw'r profiadau dysgu yn darparu cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlyniaeth a dilyniant?

Arfarnwch y graddau y mae gwasanaethau a gweithgareddau a ddarperir i bobl ifanc yn:

3.2.1 cynnig ystod eang o brofiadau a chyfleoedd i gyd-fynd ag anghenion a dyheadau amrywiol;
3.2.2 cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu medrau a symud ymlaen i lefelau uwch os dymunant; ac yn
3.2.3 rhoi mynediad cyffredinol iddynt i'r 10 Hawl.

Arweiniad pellach

Dylai ystod y cyfleoedd gynnwys:

- sesiynau mynediad agored;
- gweithgareddau cymdeithasol a hamdden;
- sesiynau ymgynghori;
- fforymau ieuenctid;
- mynediad i wasanaethau gwybodaeth diduedd;
- gweithgareddau addysgol ffurfiol ac anffurfiol;
- dawns, drama a'r celfyddydau;
- mynediad i gyfleusterau TGCh;

- chwaraeon;
- gweithgareddau awyr agored;
- teithiau a theithiau cyfnewid;
- gweithgareddau yn y gymuned; a
- chyfleoedd i wirfoddoli.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Penderfynwch a oes sylfaen eang i'r ystod gweithgareddau, neu a roddir gormod o bwyslais ar un fath o weithgarwch e.e. gweithgareddau sy'n cael eu cynnig mewn canolfannau ieuenctid, ac a yw'r gweithgareddau'n rhai ar gyfer un rhyw yn benodol, neu a oes un grŵp o bobl ifanc yn manteisio gormod arnynt. A oes grŵp penodol o bobl ifanc nad ydynt yn cael mynediad i'r holl hawliau? Sut mae'r darparwr yn sicrhau, er enghraifft, bod pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu yng nghymunedau'r cymoedd yn gallu cyrraedd y cyfleusterau y mae eu hangen arnynt?

3.3 A yw profiadau dysgu'n datblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol pobl ifanc?

Pan fo hynny'n briodol, arfarnwch pa mor dda y mae darparwyr a staff yn:

3.3.1 nodi anghenion medrau sylfaenol a medrau allweddol pobl ifanc;
3.3.2 cynnig cyfleoedd i bobl ifanc wella a datblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol;
3.3.3 sicrhau hyfforddiant effeithiol ym maes defnyddio TGCh; a
3.3.4 threfnu achredu gwaith pobl ifanc pan fo hynny'n briodol.

Arweiniad pellach

Dylid cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol. Ystyriwch os gwneir hyn, a pha mor effeithiol ydynt. Nid yw'n briodol i'r holl leoliadau fynd i'r afael yn ffurfiol ag anghenion medrau sylfaenol. Fodd bynnag, yn rhan fwyaf y lleoliadau, dylai staff fod yn ymwybodol o anghenion y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Os nad yw'n briodol i staff gyflwyno medrau sylfaenol yn uniongyrchol, dylent ddod o hyd i ffyrdd i gyfeirio pobl ifanc at y lleoliadau hynny lle gellir rhoi sylw i'r anghenion hyn.

3.4 A yw'r profiadau dysgu yn ehangu a chyfoethogi profiad pobl ifanc trwy amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau ysgol ac oddi ar y safle?

Arfarnwch ac aseswch y graddau y mae darparwyr yn:

3.4.1 cynnig darpariaeth ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus ac y gall pobl ifanc gael mynediad iddynt; ac

3.4.2 yn darparu gwaith allymestyn a gwaith ar wahân priodol.

Arweiniad pellach

Dylai partneriaethau a, phan fo hynny'n briodol, darparwyr ddarparu ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid, wedi'u seilio ar ymgynghoriad â phobl ifanc ac ar angen yr ymchwiliwyd yn dda iddo. Dylai'r ddarpariaeth fod ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau ac yn ystod y dydd, gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Aseswch a oes cyfleoedd preswyl, teithiau cyfnewid a theithiau i wledydd tramor ar gael.

3.5 A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol pobl ifanc, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol?

Arfarnwch effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth ieuenctid wrth hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc trwy:

3.5.1. gynnig cyfleoedd iddynt:

- llunio barnau;
- bod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain;
- meddwl drostynt eu hunain;
- symud i ffyrdd mwy annibynnol o fyw;
- gwneud penderfyniadau a dewisiadau;
- cyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch gwasanaethau sy'n effeithio arnynt a materion sy'n effeithio ar eu bywydau; ac
- ymddwyn mewn ffordd sensitif ac sy'n parchu hawliau, credoau, teimladau a dyheadau eraill.

3.5.2 y graddau y mae staff yn helpu pobl ifanc i ddeall gwerth y gweithgareddau neu'r gwasanaethau, a'r hyn y maent yn ei gael ohonynt.

Arweiniad pellach

Bydd y math o weithgareddau a ddarperir a fydd yn helpu i ddatblygu pobl ifanc yn y ffordd hon, yn cynnwys cyfleoedd i gyfranogi mewn gweithgareddau gwirfoddol a diwylliannol er enghraifft teithiau cyfnewid, cystadlaethau, prosiectau cymunedol, cyngherddau, arddangosfeydd a digwyddiadau cymdeithasol. Aseswch a roddir cyfleoedd i bobl ifanc brofi cymunedau ac eithrio'r rhai y maent yn byw ynddynt.

3.6 A gaiff y profiadau dysgu eu cyfoethogi gan bartneriaethau effeithiol gyda darparwyr eraill a chyda phawb arall sydd â diddordeb?

Arfarnwch pa mor effeithiol y mae darparwyr yn:

3.6.1 cydweithio gydag asiantaethau eraill a darparwyr lleol, rhai statudol a gwirfoddol, i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid;
3.6.2 ymateb i anghenion y gymuned leol a'r gymuned ehangach;
3.6.3 annog partneriaid i gyfrannu at gynllunio, rheoli, cyflwyno, adolygu ac arfarnu gwasanaethau;
3.6.4 cynnwys pobl ifanc fel partneriaid allweddol ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth;
3.6.5 gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gofalwyr; a
3.6.6 chynnwys aelodau etholedig a gweithwyr proffesiynol allweddol.

Arweiniad pellach

Bydd partneriaethau pobl ifanc a darparwyr unigol yn cydweithio i raddau amrywiol gyda sefydliadau gan gynnwys, er enghraifft:

- ysgolion a cholegau;
- sefydliadau hyfforddi a chwmnïau gyrfa;
- cynrychiolwyr y gymuned fusnes;
- gweithwyr proffesiynol iechyd;
- darparwyr gwasanaethau cymdeithasol;
- timau cyfiawnder ieuenctid a thimau troseddau ieuenctid (TTI);
- yr heddlu;
- sefydliadau eglwysig;
- sefydliadau chwaraeon; a
- sefydliadau cymunedol.

Bydd angen i chi asesu ansawdd y bartneriaeth rhwng, er enghraifft, yr ysgol/coleg a'r prosiect iechyd rhyw; gan gynnwys pa mor dda y mae'r bartneriaeth yn gweithio i gynnal cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant. Bydd angen i chi asesu pa mor effeithiol y mae partneriaethau penodol yn gweithio gyda'i gilydd i fodloni anghenion pobl ifanc – e.e. CCAH (Consortiwm Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant), y Bartneriaeth Trosedd ac Anhrefn; y Bartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc; a'r Bartneriaeth Adfywio.

Dylai fod gwybodaeth am, a pherthynas dda gyda darparwyr gwasanaethau i bobl ifanc na fydd o bosibl yn cael eu cynrychioli yn y bartneriaeth pobl ifanc na'u cynnwys yn y cynllun cyflwyno.

Dylai fod tystiolaeth o ddogfennaeth sy'n nodi'r gwasanaethau sydd ar gael ac yn nodi bylchau. Canfyddwch a yw'r bartneriaeth wedi adnabod bylchau mewn gwasanaethau ac wedi nodi dulliau a ffyrdd o lenwi'r bylchau hynny.

3.7 A yw'r profiadau dysgu'n bodloni gofynion cyfreithiol a gofynion y cwrs?

Arfarnwch y graddau y mae gwasanaethau cymorth ieuenctid, pan fo hynny'n briodol:

3.7.1 yn cydymffurfio â gofynion y cwrs ynghylch cymwysterau ffurfiol a chynlluniau gwobrwyo; ac

3.7.2 yn bodloni gofynion cyfreithiol deddfwriaeth berthnasol yn llawn, fel:

- Deddf Dysgu a Sgiliau (2000);
- Deddf Trwyddedu Gweithgareddau Antur (1996);
- Deddf Plant (1989);
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1999);
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000);
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (1975);
- Deddf Plant (1989) (2004) (2006);
- Deddf yr Iaith Gymraeg (1993);
- Deddf Diwygiad Cysylltiadau Hiliol (2000); a'r
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) & (2001).

- **Y graddau y mae'r profiadau dysgu'n ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach**

3.8 A yw'r profiadau dysgu yn darparu addysg sy'n gysylltiedig â gwaith i bobl ifanc?

Pan fo hynny'n briodol, arfarnwch y graddau y mae:

3.8.1 gwasanaethau cymorth ieuenctid yn paratoi rhywun ar gyfer byd gwaith;

3.8.2 profiad gwaith a ddarperir mewn prosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, yn ddefnyddiol ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc; ac

3.8.3 yr ymgynghorir â phobl ifanc ynghylch materion yn ymwneud â gwaith.

Arweiniad pellach

Arfarnwch gyfraniad cysylltiadau gyda'r gymuned fusnes a diwydiant. Aseswch a yw'r gweithgareddau a ddarperir yn gwella cyfleoedd pobl ifanc o gael gwaith a pha mor ymwybodol y mae staff o anghenion cyflogwyr lleol.

Ystyriwch a roddir y canlynol i bobl ifanc, ac a ydynt yn ddigonol ac o safon uchel:

- gwybodaeth am yrfaoedd;
- cyfleoedd profiad gwaith;
- gwybodaeth a chyngor am swyddi a gwaith;
- cyngor ynghylch gwaith rhan-amser addas;
- gwybodaeth am eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel gweithwyr; a
- chyfleoedd i gyfarfod â chyflogwyr neu i gymryd rhan mewn cynlluniau mentora.

3.9 A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo medrau dwyieithog pobl ifanc ac yn adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru?

Arfarnwch pa mor dda y mae darparwyr yn:

3.9.1 creu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwasanaethau a chael mynediad iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg;
3.9.2 eu galluogi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru; a'u
3.9.3 helpu i ddeall y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth dyfu i fyny fel dinasyddion effeithiol, a chyfrifol, mewn cyd-destun Cymreig.

Arweiniad pellach

Gweler yr Arweiniad ar Arolygu Dwyieithrwydd

3.10 A yw'r profiadau dysgu yn mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a stereoteipio ac yn sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bob unigolyn ifanc?

Arfarnwch pa mor dda y mae darparwyr yn:

3.10.1 cynnig hawl gyffredinol i bobl ifanc yn ysbryd Ymestyn Hawliau;
3.10.2 hyrwyddo cyflawni safonau uchel ymhlith pawb;
3.10.3 sicrhau cyfle a mynediad cyfartal i bob person ifanc;
3.10.4 targedu grwpiau penodol a grwpiau wedi'u tangynrychioli; a
3.10.5 sicrhau eu bod yn herio pob math o stereoteipiau a rhagfarn.

Arweiniad pellach

Archwilio'r proffil cymunedol a siarad â phobl ifanc i farnu a yw'r gwasanaethau cymorth ieuenctid yn adlewyrchu anghenion pobl ifanc yn yr ardal yn ddigonol. Barnwch a gymerwyd camau rhesymol i waredu rhwystrau i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i wasanaethau; mae hyn yn cynnwys deunyddiau hyrwyddol sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r darparwr.

3.11 A yw'r profiadau dysgu'n hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy?

Arfarnwch y graddau y mae darparwyr yn:

3.11.1 sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau'n helpu gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o'r materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy; a
3.11.2 cynnig cyfleoedd sy'n helpu pobl ifanc i ddeall yr hyn y mae ei angen i hyrwyddo cymunedau cynaliadwy.

Arweiniad pellach

Mae datblygiad cynaliadwy yn ymwneud â'r amgylchedd a'r economi. Mae angen i'r ddau fod yn gynaliadwy a dylent fod yn amlwg ym mholisïau'r darparwr. Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn ymwneud â gweithgareddau o ddydd i ddydd

megis defnyddio ynni, ailgylchu, gostwng cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir yn ei holl ffurfiau a chynnal ffyrdd iachach o fyw.

Gall darparwyr godi ymwybyddiaeth o faterion a chynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Gall datblygiadau cynaliadwy ymarferol fod yn amlwg yn nhrefniadau rhedeg arferol canolfannau o ddydd i ddydd. Er enghraifft, efallai y ceir polisïau ar:

- ddefnyddio ynni;
- ailgylchu;
- gostwng cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir; a
- chynnal ffyrdd iach o fyw.

Mae cynaliadwyedd economaidd a chymunedol yn ymwneud â'r angen i ddatblygu'r economi lleol a chenedlaethol mewn ffordd a fydd yn parhau yn y tymor hir. Mae'n ymwneud, er enghraifft, â deall pwysau economaidd ar fusnesau lleol a chynnal isadeiledd a hanfod bywyd cymunedol. Gall gwasanaethau cymorth ieuenctid wneud cyfraniad cryf at hyn trwy ddatblygu gallu pobl ifanc i ddatblygu eu medrau a'u defnyddio i gyfrannu at waith lleol, materion lleol ac ansawdd bywyd yn y gymuned.

3.12 A yw profiadau dysgu yn ystyried anghenion cyflogwyr?

Arfarnwch pa mor dda y mae darparwyr yn:

3.12.1 ymgynghori â chyflogwyr a'u cynnwys wrth ddarparu gwasanaethau; ac yn

3.12.2 cysylltu ag adrannau perthnasol yn yr awdurdod lleol a chyrff eraill i ddarparu gweithgareddau, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cynllunio datblygiad economaidd lleol.

Gweler 3.8 uchod hefyd.

3.13 A yw'r profiadau dysgu yn datblygu'r medrau entrepreneuraidd a'r medrau eraill sydd eu hangen i gefnogi datblygiad economaidd?

Arfarnwch y graddau y mae darparwyr yn:

3.13.1 trefnu gweithgareddau, sy'n annog medrau'n ymwneud â byd busnes;

Arweiniad pellach

Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys, er enghraifft, cyfleoedd i:

- redeg siopau bwyd a bariau coffi;
- rhedeg mentrau bach mewn canolfannau neu fel rhan o brosiectau; a
- chyfrannu mewn mentrau arloesol yn ymwneud â byd busnes i godi arian.

3.14 A yw'r

Arfarnwch pa mor dda y mae darparwyr yn:

profiadau dysgu'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywio cymunedol?

3.14.1 nodi ac yn ymateb yn systematig i anghenion cymunedol lleol trwy gyfrwng ymchwil i'r farchnad;
3.14.2 defnyddio'r ddealltwriaeth hon i ddyfeisio gweithgareddau diddorol, perthnasol ac arloesol i bobl ifanc;
3.14.3 ymateb yn hyblyg i newidiadau mewn anghenion;
3.14.4 defnyddio gwybodaeth leol i dargedu grwpiau sydd ag anghenion arbenigol; a
3.14.5 hyrwyddo dysgu gydol oes ymhlith pobl ifanc.

Arweiniad pellach

Arfarnwch effeithiolrwydd y berthynas gydag aelodau a sefydliadau o'r gymuned leol. Penderfynwch pa mor dda y mae gwasanaethu'n paratoi pobl ifanc i chwarae rhan gyfrifol, llawn a gweithredol yn eu cymunedau.

Arfarnwch gyfranogiad pobl ifanc mewn gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf neu eu cysylltiadau â chynghorau tref a chymuned.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i bobl ifanc?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, lle mae'n berthnasol, y graddau y mae darparwyr yn:
ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad i ddysgwyr	4.1 cynllunio a rheoli trefniadau gofal a gwasanaethau cymorth yn effeithiol; 4.2 gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr a chyflogwyr, ac ystyried eu safbwyntiau; 4.3 darparu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael ac arweiniad diduedd sy'n helpu dysgwyr i ddewis y cwrs sy'n iawn iddynt hwy; 4.4 cynnig rhaglenni sefydlu sy'n helpu dysgwyr i ymgartrefu'n gyflym, deall eu hawliau a chyfrifoldebau a gofynion y cwrs a'r rhaglen; 4.5 darparu cymorth ac arweiniad personol o ansawdd uchel i ddysgwyr, gan gynnwys mynediad i addysg bersonol a chymdeithasol, rhaglenni tiwtorial a gwasanaethau arbenigol; 4.6 monitro prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr, a chymryd camau gweithredu cynnar a phriodol lle bydd eu hangen; 4.7 darparu addysg ac arweiniad gyrfaoedd effeithiol sy'n helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus; 4.8 sicrhau datblygiad iach, diogelwch a lles pob dysgwr; a 4.9 meddu ar weithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc ac ar gyfer delio ag apeliadau a chwynion.
ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol	4.10 dadansoddi anghenion dysgu unigol yn effeithiol; 4.11 darparu cymorth ychwanegol i ateb anghenion unigol, gan gynnwys anghenion y dysgwyr hynny sydd ag anableddau dysgu a/neu gorfforol, namau ar eu synhwyrau ac anghenion arbennig eraill; a 4.12 darparu cymorth priodol i ddysgwyr y mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd hwy ac ar gynnydd eraill.
ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal	4.13 cefnogi ac arwain dysgwyr yn briodol, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol; 4.14 hyrwyddo cydraddoldeb y ddau ryw a herio

	ystrydebau mewn dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr; 4.15 hyrwyddo cysylltiadau hiliol da ar draws pob maes gweithgarwch; 4.16 meddu ar fesurau effeithiol i ddileu ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu hiliol, bwlio a phob math o aflonyddwch; 4.17 sicrhau triniaeth gyfartal i ddysgwyr anabl a gwneud addasiadau rhesymol i osgoi eu rhoi dan anfantais sylweddol; a 4.18 chydnabod a pharchu amrywiaeth.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gefnogaeth i bobl ifanc?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar:

- **Ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad i bobl ifanc**

4.1 A yw'r darparwr yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau gofal a gwasanaethau cymorth yn effeithiol?

Arfarnwch a yw'r darparwr yn:

4.1.1 meddu ar bolisïau clir a chynhwysfawr a adolygir yn rheolaidd;
4.1.2 meddu ar weithdrefnau i roi cymorth i bobl ifanc pan fydd ei angen arnynt ac ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n addas iddynt;
4.1.3 adolygu eu mecanweithiau a'u harferion cymorth yn rheolaidd;
4.1.4 sicrhau bod staff yn gweithredu polisïau'n effeithiol; a
4.1.5 sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant sylfaenol, yn enwedig mewn materion yn ymwneud ag amddiffyn plant, cyfrinachedd ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.

Arweiniad pellach

Gellir darparu cymorth yn uniongyrchol neu gall y darparwr drefnu cymorth gan ddarparwr arall i'r bobl ifanc. Gallai ystod y cymorth a gynigir gynnwys:

- gwasanaethau cyngor a gwybodaeth diduedd o ansawdd da;
- gwasanaethau cynghori;
- ystafelloedd neu safleoedd cyfweld mewn lleoliadau lle darperir gwasanaethau cymorth ieuenctid, sy'n addas ar gyfer cynnal trafodaethau tawel neu bersonol;
- mecanweithiau wedi'u sefydlu i gael mynediad i wasanaethau gan weithwyr iechyd proffesiynol;
- cyngor ar faterion rhywiol ac atal cenhedlu;
- help gyda phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a phroblemau iechyd meddwl;
- gwybodaeth a chyngor am dai i bobl ifanc sy'n ddigartref;

	➢ cyngor cyfreithiol; a ➢ chymorth a chyngor a ddarperir i bobl ifanc y gofelir amdanynt, sy'n gadael gofal gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr ifanc.
4.2 A yw staff yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr a chyflogwyr ac yn ystyried eu safbwyntiau?	Arfarnwch pa mor dda y mae staff yn: 4.2.1 cael gwybod safbwyntiau rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill; ac 4.2.2 yn cydweithio â nhw i roi cymorth ac arweiniad i bobl ifanc.
4.3 A yw'r bobl ifanc yn cael gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael ac arweiniad diduedd sy'n eu helpu i ddewis y cwrs iawn iddynt hwy?	Arfarnwch: 4.3.1 briodolrwydd, ansawdd a hygyrchedd y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i bobl ifanc trwy gyfrwng: ➢ siopau gwybodaeth/canolfannau/caffis/canolfannau galw i mewn; ➢ safleoedd gwybodaeth mewn clybiau, eiddo prosiectau, canolfannau cymunedol a llety arall a rennir; a/neu ➢ safleoedd gwybodaeth a gynhelir gan weithwyr ieuenctid a ddarperir mewn ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus addas y gall pobl ifanc gael mynediad iddynt. 4.3.2 pa mor gyfoes yw'r wybodaeth sydd ar gael ac i ba raddau y caiff ei darparu mewn ffordd sy'n ddeniadol ac sy'n apelio i bobl ifanc; 4.3.3 defnyddio TGCh gan gynnwys gwefannau, i ddarparu a chyflwyno gwasanaethau gwybodaeth; 4.3.4 effeithiolrwydd polisïau a phrotocolau i ddarparu gwybodaeth i wahanol grwpiau oedran; 4.3.5 y graddau y mae cyngor ac arweiniad ar gael yn ddwyieithog a phan fo hynny'n briodol ac yn rhesymol, i siaradwyr ieithoedd eraill yn eu hoff iaith; ac 4.3.6 ansawdd ac effeithiolrwydd cytundebau gyda darparwyr eraill sy'n rhoi cyngor ac arweiniad. Arweiniad pellach Ystyriwch pa mor bell y mae cyngor ac arweiniad yn galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau effeithiol ynghylch dewisiadau addysgol a hyfforddiant a materion eraill sy'n effeithio ar eu bywydau.

4.4 A yw rhaglenni sefydlu yn helpu pobl ifanc i ymsefydlu'n gyflym, deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau a galwadau'r cwrs a'r rhaglen?

Arfarnwch:

4.4.1 pa mor gyflym y mae pobl ifanc yn ymsefydlu y tro cyntaf y byddant yn mynychu canolfan, prosiect neu sesiwn;
4.4.2 y gweithdrefnau sefydlu i bobl ifanc ar bob prosiect, ond yn arbennig y rhai sy'n cynnal dysgu ffurfiol neu weithgareddau arbenigol;
4.4.3 y gweithdrefnau i ddangos i bobl ifanc sut i fynd at systemau gwybodaeth a'u defnyddio mewn canolfannau gwybodaeth;
4.4.4 sut y caiff natur, diben a math yr ymgynghori ei esbonio i'r bobl ifanc mewn fforymau ieuenctid a gweithgareddau ymgynghori;
4.4.5 a oes contractau grŵp a/neu ganllawiau ymddygiad y mae pobl ifanc yn gwybod amdanynt ac yn eu deall; ac
4.4.6 a yw pobl ifanc yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd neu sesiwn.

Arweiniad pellach

Siaradwch â phobl ifanc a phenderfynwch a ydynt yn deall y gweithgareddau neu'r prosesau y maent yn cymryd rhan ynddynt. Arfarnwch effeithiolrwydd y gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelwch a 'rheolau'r tŷ' neu gontract grŵp.

4.5 A ddarperir cymorth ac arweiniad personol o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys mynediad at addysg bersonol a chymdeithasol, rhaglenni tiwtorial a gwasanaethau arbenigol?

Gweler 4.1 uchod

Arfarnwch i ba raddau:

4.5.1 y mae gwasanaethau cymorth ieuenctid a Phartneriaethau Pobl Ifanc yn darparu elfen gymorth y llwybrau dysgu 14-19 yn effeithiol pan fo hynny'n briodol;
4.5.2 y mae gan bobl ifanc fynediad i ystod priodol o wasanaethau cymorth, gan gynnwys gofal plant pan fo hynny'n briodol;
4.5.3 y mae pobl ifanc a staff yn ymwybodol o ystod y gwasanaethau sydd ar gael a sut i'w defnyddio;
4.5.4 ar brosiectau ieuenctid sy'n cynnal dysgu ffurfiol, y mae'r cysylltiadau rhwng staff, ac athrawon a thiwtoriaid personol yn sicrhau y caiff pob unigolyn ifanc gymorth personol effeithiol yn ystod eu cyfnod ar brosiect; a
4.5.5 bod gan staff sy'n darparu cymorth ac arweiniad fedrau a chymwysterau perthnasol.

4.6 A yw'r darparwr yn monitro prydlondeb, ymddygiad a pherfformiad pobl ifanc ac yn cymryd camau cynnar pan fo'n briodol?

Pan fo hynny'n briodol, arfarnwch pa mor effeithiol y mae darparwyr yn:

4.6.1 gosod targedau, yn monitro ac yn adrodd ar brydlondeb, ymddygiad a phresenoldeb;
4.6.2 rhoi cymorth i bobl ifanc sydd â phroblemau gyda'u hymddygiad; ac
4.6.3 yn ymateb i broblemau pobl ifanc a allai fod yn achosi ymddygiad amhriodol neu'n amharu ar gyflawniad.

Arweiniad pellach

Bydd pwyslais ar faterion yn ymwneud â phrydlondeb yn berthnasol yn bennaf i brosiectau sy'n cynnal dysgu ffurfiol, gwaith arbenigol arall neu, er enghraifft, grwpiau aelodaeth benodol. Mewn rhai o'r lleoliadau gwaith mwy anffurfiol, efallai na fydd prydlondeb a phresenoldeb yn berthnasol o gwbl.

4.7 A oes addysg ac arweiniad gyrfaoedd effeithiol sy'n helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus?

Arfarnwch pa mor bell y mae cyfleoedd ar gael i bobl ifanc fanteisio ar:

4.7.1 arweiniad addas a diduedd ynghylch gyrfaoedd a dewisiadau eraill sydd ar gael iddynt;
4.7.2 dealltwriaeth dda o'r cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael iddynt pan fyddant yn cwblhau prosiect sy'n cynnal dysgu ffurfiol, neu pan fyddant yn barod i symud ymlaen;
4.7.3 cymorth unigol wrth wneud ceisiadau am swyddi a lleoedd addysg bellach; ac
4.7.4 arweiniad Cymraeg neu ddwyieithog priodol.

Arweiniad pellach

Efallai na fydd yn briodol darparu gwybodaeth am yrfaoedd ym mhob lleoliad gwasanaeth cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, dylai'r cyfleuster fod ar gael i bobl ifanc yn y ddarpariaeth bartneriaeth gyffredinol. Dylai trefniadau sy'n addas i'r bobl ifanc fod wedi cael eu gwneud er mwyn eu cyfeirio at wybodaeth ac arweiniad ynghylch dewisiadau gyrfa.

Gweler 4.3 uchod.

4.8 A yw darparwyr yn sicrhau datblygiad iach, diogelwch a lles yr holl bobl ifanc?

Arfarnwch a yw darparwyr yn:

4.8.1 meddu ar bolisïau sy'n sicrhau iechyd a diogelwch a lles pobl ifanc;
4.8.2 sicrhau bod prosiectau unigol a darpariaethau partner yn meddu ar bolisïau, a'u monitro'n rheolaidd;
4.8.3 sicrhau bod pobl ifanc, staff a rheolwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth o drefniadau iechyd a diogelwch; a

4.8.4 sicrhau bod prosiectau a phartneriaid yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i adrodd unrhyw faterion iechyd a diogelwch.

Gweler 7.3 uchod hefyd.

4.9 A oes gan y darparwr weithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc ac ymdrin ag apeliadau a chwynion?

Arfarnwch a yw darparwyr yn:

4.9.1 gweithredu yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo lles pobl ifanc a'u diogelu rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso;
4.9.2 sicrhau bod gan brosiectau unigol weithdrefnau addas i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed; bod ganddynt unigolyn dynodedig ac wedi'i hyfforddi'n addas sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant;
4.9.3 sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol i ddelio â hiliaeth, bwlio, aflonyddu ac unrhyw fath arall o ymddygiad gormesol;
4.9.4 meddu ar weithdrefnau cwyno effeithiol i bobl ifanc a sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt; a
4.9.5 chadw cofnodion o'r holl apeliadau a chwynion a dadansoddi'r rhain yn rheolaidd.

Arweiniad pellach

Cyfrifoldeb y bartneriaeth a'r darparwr yw sicrhau bod polisïau diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed yn bodloni gofynion y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant (PAAP) neu'r Byrddau Diogelu Plant Lleol (BDPLl). Dylai pob aelod o staff a gwirfoddolwyr fod wedi cael archwiliad cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

❑ Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

4.10 A yw'r darparwr yn dadansoddi anghenion dysgu unigol yn effeithiol?

Arfarnwch pa mor effeithiol y mae darparwyr yn:

4.10.1 dadansoddi anghenion dysgu unigol ac ehangach pobl ifanc;
4.10.2 rhoi trefniadau addas ar waith i fodloni'r anghenion hyn; a
4.10.3 chysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n delio ag unigolyn ifanc, yn enwedig mewn prosiectau ieuenctid sy'n cynnal dysgu ffurfiol a'r system cyfiawnder ieuenctid.

Arweiniad pellach

Ym mhob math o wasanaethau cymorth ieuenctid, dylai staff gael ffyrdd o nodi a delio ag anghenion unigol pobl ifanc. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys help gyda llythrennedd a rhifedd neu broblemau iechyd meddwl. Dylid cynnwys materion a amlygwyd yn ystod asesiadau cychwynnol mewn cynllun gweithredu unigol, a ddylai gynnwys cerrig milltir a/neu dargedau clir i sicrhau gwelliant.

4.11 A oes cymorth ychwanegol er mwyn bodloni anghenion unigol, gan gynnwys anghenion pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu a/neu gorfforol, namau synhwyrau ac anghenion arbennig eraill?

Arfarnwch pa mor effeithiol y mae darparwyr yn:

4.11.1 integreiddio cymorth dysgu wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid;
4.11.2 sicrhau bod pobl ifanc sydd ag anableddau corfforol a/neu nam ar eu synhwyrau ac anghenion arbennig eraill yn gallu cael mynediad i offer arbenigol;
4.11.3 darparu staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas i gynorthwyo gyda chymorth unigol; a
4.11.4 monitro ac arfarnu nifer y bobl ifanc sydd ag anghenion arbennig, sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth ieuenctid.

Gweler 5.2 hefyd.

4.12 A oes cymorth priodol i bobl ifanc y mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd a chynnydd eraill?

Arfarnwch:

4.12.1 a oes gan ddarparwyr bolisïau a gweithdrefnau effeithiol i ddelio ag ymddygiad heriol;
4.12.2 a yw pobl ifanc yn deall sut y dylent ymddwyn pan fyddant yn mynychu grwpiau a chlybiau ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau;
4.12.3 a oes gan glybiau a phrosiectau gytundeb neu gontract gyda phobl ifanc, fel grŵp neu fel unigolion, sy'n nodi ac yn cytuno ar ymddygiad priodol;
4.12.4 a yw trefniadau i helpu pobl ifanc unigol i oresgyn eu hanawsterau yn addas;
4.12.5 a roddir hyfforddiant i bob aelod o staff i ddelio â phobl ifanc heriol; ac
4.12.6 a oes cymorth priodol i bobl ifanc mewn gofal neu sy'n gadael gofal, pobl ifanc sy'n gadael yr ystâd ddiogel, y rheiny sy'n derbyn contractau neu orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a phobl ifanc ar system dagio.

Arweiniad pellach

Gallai mesurau i ddelio ag ymddygiad aflonyddol gynnwys eu diarddel o wasanaethau am gyfnodau penodol. Aseswch pa mor dda y rheolir y gweithdrefnau hyn a pha mor effeithiol ydynt wrth wella ymddygiad pobl ifanc. Fodd bynnag, bydd angen i chi ystyried natur a chefndir y bobl ifanc mewn rhai o'r lleoliadau y byddwch yn eu harfarnu. Mewn rhai amgylchiadau byddwch yn gweld pobl ifanc ag ymddygiad heriol, materion iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol.

❑ ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

4.13 A yw darparwyr yn cynorthwyo ac yn arwain pobl ifanc yn briodol, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol?

Arfarnwch pa mor dda mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn:

4.13.1 darparu ar gyfer pobl ifanc o wahanol gefndiroedd ethnig a grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais, a grwpiau anodd eu cyrraedd gan gynnwys teithwyr;
4.13.2 meddu ar weithdrefnau i annog grwpiau o bobl ifanc nad ydynt wedi cymryd rhan yn draddodiadol, i fynychu prosiectau a gweithgareddau a gweithredu'r gweithdrefnau hyn yn briodol; a
4.13.3 monitro cyfraddau cyfranogi'r gwahanol grwpiau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol; a gweithredu i ddelio â'r anghydbwysedd.

Arweiniad pellach

Mae gan bobl ifanc yng Nghymru hawl gyffredinol i wasanaethau cymorth ieuenctid. Gall grwpiau ymylol neu grwpiau anodd eu cyrraedd gynnwys merched ifanc, gofalwyr ifanc a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ceiswyr lloches ifanc, teithwyr ifanc a phobl ifanc sydd ag anghenion arbennig a/neu anableddau. Aseswch pa mor dda y mae darparwyr yn ystyried amrywiaeth a/neu anghenion penodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd nad yw meysydd gwaith penodol yn eithrio pobl ifanc o'r brif ffrwd trwy or-dargedu grwpiau arbenigol.

4.14 A yw darparwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y ddau ryw ac yn herio ystrydebau mewn dewisiadau a disgwyliadau pobl ifanc?

Arfarnwch:

4.14.1 pa mor dda y mae darparwyr yn herio ystrydebau rhyw gan gynnig darpariaeth sy'n helpu pobl ifanc i ystyried posibiliadau a dewisiadau yn eu bywydau;
4.14.2 effeithiolrwydd polisïau cyfle cyfartal y darparwr; a
4.14.3 pha mor dda y mae deunyddiau hyrwyddo a marchnata yn cynnig delweddau cadarnhaol o ystod eang o bobl ifanc.

Arweiniad pellach

Ystyriwch pa mor dda:

- y mae'r holl ddarpariaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y ddau ryw, yn herio ystrydebau ac yn annog dynion neu ferched ifanc i gymryd rhan yn y gweithgareddau a ddewisant;
- y mae staff yn trafod ac yn herio rolau galwedigaethol traddodiadol ymhlith pobl ifanc; ac
- y mae prosiectau'n gweithio gydag asiantaethau eraill i geisio annog cyflogwyr i beidio canolbwyntio ar un rhyw wrth gynnig cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant.

Aseswch sut mae pobl ifanc yn ymddwyn yn ystod gweithgareddau, a phenderfynwch a oes un rhyw yn rheoli'r sefyllfa. Er enghraifft, ystyriwch y graddau:

- y mae gwrywod yn arwain gweithgareddau mewn clybiau ac yn enwedig offer TGCh;
- y mae merched yn gweini tu ôl y bar coffi ac yn glanhau ar ddiwedd y sesiwn;
- y mae gwrywod yn cael eu hannog i fynychu sesiynau addysg rhyw a bod yn rhiant;
- y mae'n dderbyniol i wrywod gymryd rhan mewn sesiynau celf a chrefft; ac
- y caiff merched gynnig y cyfle i gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau awyr agored heriol.

4.15 A yw'r darparwr yn hyrwyddo cysylltiadau hiliol da ar draws pob maes gweithgaredd?

Arfarnwch:

4.15.1 sut mae polisïau ac arferion yn dangos bod gwasanaethau cymorth ieuenctid yn croesawu pobl ifanc o ystod eang o gefndiroedd, galluoedd a diwylliannau gan hyrwyddo cysylltiadau hiliol da;

4.15.2 i ba raddau y mae pobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sy'n byw yn y gymuned, yn mynychu darpariaeth mynediad agored;

4.15.3 y graddau y caiff cysylltiadau hiliol da eu hyrwyddo mewn ardaloedd lle na cheir llawer o bobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol;

4.15.4 pa mor dda y mae darparwyr a'r bartneriaeth pobl ifanc yn monitro ac yn gweithredu polisïau cysylltiadau hiliol; a

4.15.5 pha mor dda y caiff digwyddiadau hiliol eu monitro a'u trin.

Arweiniad pellach

Mae angen diffinio digwyddiad hiliol yn ôl amgyffrediadau'r un sy'n gyfrifol a'r un sy'n dioddef. Er enghraifft, gall gynnwys galw enwau hiliol, eithrio rhywun o weithgareddau neu ymddygiad treisgar amlycach.

Roedd achos Stephen Lawrence, a arweiniodd at Ymchwiliad McPherson, yn awgrymu bod hiliaeth yn bodoli ar draws holl adrannau'r gymdeithas. Dylai gwasanaethau cymorth ieuenctid gydnabod bod atal hiliaeth yn cynnwys datblygiad arferol, moesol a diwylliannol yr holl bobl ifanc. (Gweler Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000)

4.16 A oes gan ddarparwyr fesurau effeithiol i ddileu ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu hiliol, bwlio a phob math o aflonyddu?

Arfarnwch:

4.16.1 effeithiolrwydd y trefniadau er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu neu aflonyddu. Bydd y rhain yn cynnwys mesurau i ddileu ymddygiad gormesol, gwahaniaethu hiliol a bwlio;

4.16.2 pa mor dda y mae darparwyr yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau hyn trwy ymgynghori â phobl ifanc;

4.16.3 pha mor dda y mae'r darparwr yn monitro ac yn ymateb i gŵynion ynghylch aflonyddu ac yn sicrhau ei fod wedi cymryd camau prydlon ac effeithiol; ac

4.16.4 a yw'r ddarpariaeth yn agored, yn groesawgar, yn anwahaniaethol a heb fod yn fygythiol. Dylai staff a phobl ifanc hyrwyddo'r awyrgylch hwn yn gyfartal.

4.17 A yw'r darparwr yn sicrhau triniaeth gyfartal i bobl ifanc anabl ac yn gwneud addasiadau rhesymol i osgoi eu rhoi dan anfantais sylweddol?

Arfarnwch:

4.17.1 pa mor bell y mae polisïau ac arferion yn dangos bod y darparwr yn croesawu pobl ifanc gydag anableddau ac yn gwneud addasiadau rhesymol i gyfleusterau ac offer i'w galluogi i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau priodol; a

4.17.2 pha mor dda y mae deunyddiau hyrwyddo a marchnata yn hysbysu pobl ifanc anabl am y cyfleusterau sydd ar gael a sut y gallant fanteisio arnynt. Os cafwyd anawsterau yn y maes hwn, dylech nodi sut y deliwyd â'r rhain.

Arweiniad pellach

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995) a'r Ddeddf Anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig a Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2001) yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ddarparwyr wahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau addysg a gwasanaethau cysylltiedig yn y gymuned. Bydd angen i chi asesu a yw'r darparwr wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw pobl ifanc anabl yn dioddef triniaeth lai ffafriol. Hefyd, bydd angen i chi bennu i ba raddau y mae'r darparwyr wedi cymryd camau i ddileu gwahaniaethu.

4.18 A yw'r darparwr yn cydnabod ac yn parchu amrywiaeth?

Arfarnwch:

4.18.1 a gaiff yr holl bobl ifanc gyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgareddau ieuenctid;

4.18.2 a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud yn yr holl ddarpariaeth i gydnabod a pharchu amrywiaeth trwy weithredu polisïau a gweithdrefnau eglur;

4.18.3 a yw polisïau a gweithdrefnau ar amrywiaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol;

4.18.4 a yw staff a phobl ifanc, yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth; ac

4.18.5 a yw darparwyr yn dadansoddi'r holl gŵynion yn ymwneud â chyfle cyfartal.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, lle mae'n berthnasol, y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn:
pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel	5.1 rhoi cyfarwyddyd clir drwy werthoedd, nodau, amcanion a thargedau y mae pawb sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill, yn eu deall yn llawn; 5.2 meddu ar nodau a gwerthoedd penodol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, ac a adlewyrchir yng ngwaith y darparwr; 5.3 ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol a chytundebau consortia; 5.4 gosod a chyrraedd targedau a nodau heriol a realistig; 5.5 rheoli a gwella perfformiad staff unigol, timau ac adrannau; ac 5.6 yn cynnal gwerthusiadau neu adolygiadau staff effeithiol er mwyn hyrwyddo'u datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth.
pa mor dda y mae llywodraethwyr neu fyrddau goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau	y graddau y mae llywodraethwyr ac aelodau byrddau goruchwylio eraill yn: 5.7 helpu gosod cyfeiriad strategol y darparwr; 5.8 monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd; ac 5.9 yn bodloni gofynion rheoleiddio a chyfreithiol.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar:

- **pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad clir ac yn hyrwyddo safonau uchel**

5.1 A yw arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cyfarwyddyd clir drwy werthoedd, nodau, amcanion a thargedau sy'n cael eu deall yn llawn gan bawb sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill?

Arfarnwch:

5.1.1 a oes gan arweinwyr a rheolwyr ddatganiad cenhadaeth a nodau ac amcanion eglur yn unol ag Ymestyn Hawliau a Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru;

5.1.2 a gaiff y rhain eu cyfleu'n effeithiol trwy'r ddarpariaeth a'u hadlewyrchu ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth yn y maes;

5.1.3 a yw'r darparwr yn gosod, yn monitro ac yn cyd-drefnu targedau'n effeithiol ar draws y ddarpariaeth bartneriaeth;

5.1.4 a yw darparwyr yn gosod ac yn monitro targedau yn eu darpariaeth eu hunain yn effeithiol;

5.1.5 a yw camau i sicrhau gwelliant parhaus yn rhan annatod o'r broses; ac

5.1.6 a yw darparwyr yn sicrhau strwythurau sefydliadol a rheolaeth sy'n arwain at welliant.

Arweiniad pellach

Wrth arfarnu rôl uwch reolwyr, dylech ganolbwyntio ar gynllunio'r ddarpariaeth. Dylech ystyried pa mor dda mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael eu cynllunio, a'r modd y mae gwasanaethau yn cyd-fynd â strategaethau eraill i wella cyfleoedd pawb sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal leol. Dylech ystyried cyfraniad rheolwyr ansawdd a staff eraill trwy arfarnu eu dealltwriaeth o nodau ac amcanion y ddarpariaeth a'u hymrwymiad iddynt, a chyfraniad yr aelodau hyn o staff tuag at osod targedau a gwella safonau ac ansawdd.

5.2 A yw arweinwyr a rheolwyr yn meddu ar nodau a gwerthoedd penodol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, ac sy'n cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y darparwr?

Arfarnwch:

5.2.1 y graddau y mae polisïau'r darparwr yn cynnwys nodau a gwerthoedd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb; a

5.2.2 pha mor dda y caiff y polisïau hyn eu gweithredu, eu monitro a'u deall.

Arweiniad pellach

Dylech sefydlu beth yw rhan y staff mewn ffurfio nodau, gwerthoedd a pholisïau a beth yw'r gweithdrefnau sy'n deillio ohonynt. Hefyd, dylech ganfod pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod pob aelod o staff, gan gynnwys y rhai newydd eu penodi, yn eu deall. Y prawf yw a yw'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y darparwr ac a ydynt yn cael eu hadolygu'n gyson. Dylech farnu a oes cyfle cyfartal i ddysgwyr a staff, a nodi a yw cyfleoedd yn cael eu gwrthod i grwpiau neu unigolion penodol.

5.3 A yw arweinwyr a rheolwyr yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol a chytundebau consortia?

Arfarnwch pa mor dda y mae darparwyr yn:

5.3.1 ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a amlinellwyd yn Ymestyn Hawliau;

5.3.2 gweithredu'r arweiniad a roddwyd i bartneriaethau fframwaith plant a phobl ifanc a phartneriaethau pobl ifanc;

5.3.3 cynllunio ac yn darparu gwasanaethau wedi'u seilio ar egwyddorion Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru;

5.3.4 ystyried dogfennau polisi cenedlaethol eraill megis Y Wlad Sy'n Dysgu, Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru (ETAP) a Chymunedau yn Gyntaf;

5.3.5 integreiddio blaenoriaethau a nodau eu sefydliadau neu eu prosiectau eu hunain gyda blaenoriaethau cenedlaethol; a

5.3.6 chydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau er lles yr holl bobl ifanc.

Arweiniad pellach

Aseswch pa mor dda y mae sefydliadau cenedlaethol, yn enwedig cyrff gwirfoddol mawr, yn cydweithio gyda'r bartneriaeth pobl ifanc i integreiddio eu cenhadaeth, eu nodau a'u hamcanion penodol eu hunain gyda blaenoriaethau lleol a pholisïau cenedlaethol.

Ystyriwch effeithiolrwydd partneriaethau ar wahanol lefelau, rhwng darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid megis y gwasanaeth ieuenctid, ysgolion neu golegau, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, yr awdurdod iechyd, gwasanaethau

	cyfiawnder ieuenctid neu'r heddlu a'r bartneriaeth pobl ifanc. Aseswch pa mor dda y maent yn perthyn i strategaeth gyffredinol y bartneriaeth pobl ifanc a blaenoriaethau'r llywodraeth. Barnwch effeithiolrwydd cyffredinol y bartneriaeth pobl ifanc ac aseswch a yw'n gweithio er lles pobl ifanc.
5.4 A yw arweinwyr a rheolwyr yn gosod ac yn bodloni targedau a nodau heriol a realistig?	Arfarnwch: 5.4.1 ansawdd cyffredinol strategaeth y bartneriaeth pobl ifanc; 5.4.2 y broses a ddefnyddir gan y bartneriaeth pobl ifanc a darparwyr unigol i osod targedau, a'i hansawdd; 5.4.3 pa mor SMART yw'r targedau hyn ar bob lefel. (Mae SMART yn acronym sy'n golygu 'penodol, mesuradwy, cyflawnadwy, gydag adnoddau a chyfyngiad amser');' 5.4.4 y graddau y mae sefydliadau partner, adrannau awdurdodau lleol, cyrff rheoli a staff yn berchen ar y targedau; 5.4.5 faint o gyfrifoldeb sydd ar staff i gyflawni targedau; 5.4.6 y graddau y mae darparwyr yn monitro cynnydd tuag at eu targedau; a'r 5.4.7 graddau y mae darparwyr yn bodloni eu targedau.
5.5 A yw arweinwyr a rheolwyr yn gwella perfformiad staff unigol, timau ac adrannau?	Arfarnwch: 5.5.1 pa mor effeithiol y mae'r darparwr yn monitro perfformiad elfennau unigol y ddarpariaeth; 5.5.2 effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr i fonitro ei berfformiad ei hun; 5.5.3 y cymorth a'r hyfforddiant a roddir i staff i fodloni'r targedau hyn; 5.5.4 y gweithdrefnau a ddefnyddir i ddelio'n effeithiol â thanberfformio a chyflawniad isel; a 5.5.5 pha mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro ac yn arfarnu gwelliant mewn perfformiad i bennu'r effaith ar ansawdd y gwasanaethau a'r safonau a gyflawnir gan bobl ifanc.

5.6 A yw arweinwyr a rheolwyr yn cynnal gwerthusiadau neu adolygiadau staff yn effeithiol er mwyn hyrwyddo'u datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth?

Arfarnwch y graddau y mae:

5.6.1 arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod rhaglenni datblygiad staff effeithiol ar gael;
5.6.2 staff yn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau;
5.6.3 gwerthuso yn helpu staff i adolygu effeithiolrwydd personol ac yn eu cynorthwyo i arfarnu a gwella'u harfer;
5.6.4 arweinwyr a rheolwyr yn manteisio'n effeithiol ar reolaeth perfformiad gyda'u staff;
5.6.5 arweinwyr a rheolwyr yn ymateb i anghenion hyfforddi unigol a gofynion y mae eu hangen i ddarparu'r strategaeth ddarpariaeth gyffredinol;
5.6.6 gweithwyr o wahanol sectorau a phrosiectau yn cael y cyfle i hyfforddi gyda'i gilydd;
5.6.7 arweinwyr a rheolwyr yn paratoi staff newydd yn effeithiol ar gyfer byd gwaith;
5.6.8 hyfforddiant staff yn bodloni eu hanghenion ac yn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion pobl ifanc yn fwy effeithiol;
5.6.9 pobl ifanc yn ymwneud â hyfforddi staff ac yn cael hyfforddiant effeithiol eu hunain; ac
5.6.10 y mae targedau a osodir i sicrhau gwelliant wedi'u cysylltu â chyflawni nodau strategol a gweithredol y bartneriaeth bobl ifanc a'r darparwyr unigol.

- **pa mor dda y mae cyrff goruchwylio yn cyflawni eu cyfrifoldebau**

5.7 A yw cyrff goruchwylio yn helpu i osod cyfeiriad strategol y darparwr?

Arfarnwch:

5.7.1 effeithiolrwydd y cynllun cyflwyno blynyddol;
5.7.2 pa mor dda y mae rheolwyr a staff yn deall eu rolau fel darparwyr;
5.7.3 y graddau y mae cyrff goruchwylio yn cynnwys pobl ifanc fel cynrychiolwyr eu cyfoedion; a'r
5.7.4 graddau y mae cyrff goruchwylio yn ymgynghori â phobl ifanc yn rheolaidd ac yn gweithredu yn unol â chanlyniadau ymgynghori.

Arweiniad pellach

Mae'r term 'cyrff goruchwylio' yn cynnwys partneriaethau pobl ifanc. Ystyriwch y graddau y mae cyrff goruchwylio yn ymwneud â:

- chynllunio strategol;
- monitro a gosod targedau;
- llunio, cytuno a monitro dogfennau polisi a gweithdrefnau; a
- gwerthuso a datblygu staff.

Mae ffurfiau gwahanol o gyrff goruchwylio. Mewn rhai achosion, bydd yn bwyllgor rheoli. Efallai y llywodraethir sefydliadau gwirfoddol mwy gan fyrddau rheoli lleol a chenedlaethol. Mae adrannau, pwyllgorau cabinet neu bwyllgorau archwilio

	awdurdodau lleol yn ymwneud â rheoli gwasanaethau cymorth ieuenctid gan gynnwys gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Pan fo modd, archwiliwch bapurau'r cyrff hyn gan olrhain effaith penderfyniadau ar waith y darparwr.
5.8 A yw aelodau cyrff goruchwylio yn monitor ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd?	Arfarnwch: 5.8.1 unrhyw ddogfennau a ddarperir ar gyfer aelodau'r bwrdd goruchwylio i weld a ydynt yn rhoi gwybodaeth fanwl, wedi'i chyflwyno'n eglur, ynghylch ansawdd y ddarpariaeth; 5.8.2 y graddau y mae'r wybodaeth hon yn helpu aelodau etholedig a chyrff goruchwylio i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol; a 5.8.3 pha mor dda yw gwybodaeth aelodau etholedig a chyrff goruchwylio am faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Arweiniad pellach Mae cyfarfod gydag aelodau cyrff goruchwylio yn gyfle i arolygwyr drafod graddau cyfranogiad aelodau yn y gwasanaethau a ddarperir.
5.9 A yw aelodau cyrff goruchwylio yn bodloni gofynion rheoleiddio a chyfreithiol?	Arfarnwch: 5.9.1 yr hyfforddiant a'r hyfforddiant diweddaru y mae cyrff goruchwylio wedi'i gael, ac a gaiff ei roi'n ddigon rheolaidd; 5.9.2 pan fo hynny'n briodol, a yw amrediad y medrau yn y corff goruchwylio yn cyfateb i anghenion math y ddarpariaeth; ac 5.9.3 a yw aelodau cyrff goruchwylio yn deall y dyletswyddau a nodir mewn deddfwriaeth addysg a'r dyletswyddau a orfodir arnynt gan ddeddfwriaeth arall. Arweiniad pellach Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000, Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) a ddiwygiwyd gan Ddeddf Anabledd ac Anghenion Addysgol Arbennig 2001 – Côd Ymarfer Ôl-16 (2002), Deddf Plant 1989 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a diwygiadau dilynol. Yn ogystal, bydd angen i aelodau cyrff goruchwylio ddeall y dyletswyddau sy'n ymwneud â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Dylech godi unrhyw faterion penodol a brys gyda swyddog iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol a Llywodraeth y Cynulliad trwy'r arolygydd cofnodol. (Trowch at yr Arweiniad Ôl-16 Generig am arweiniad ynghylch delio â phryderon iechyd a diogelwch.)

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, lle mae'n berthnasol, y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn:
pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu	6.1 yn wybodus am berfformiad yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol; 6.2 sefydlu trefniadau hunanarfarnu sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol; 6.3 ceisio sicrhau ac ystyried safbwyntiau dysgwyr, staff ac eraill sydd â diddordeb; ac 6.4 yn sicrhau bod yr holl rai sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill, yn deall ac yn ymwneud yn llawn â'r trefniadau hunanarfarnu.
effeithiolrwydd cynllunio ar gyfer gwelliant	6.5 pennu blaenoriaethau a chamau gweithredu eglur i sicrhau gwelliant; 6.6 sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu ar gyfer cefnogi blaenoriaethau; a 6.7 gallu dangos bod camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mesuradwy.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar:

- **pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu**

6.1 A yw arweinwyr a rheolwyr yn wybodus am berfformiad y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol?

Arfarnwch:

6.1.1 ansawdd yr adroddiadau hunanasesu;
6.1.2 a yw'r adroddiad yn cynnwys datganiad eglur ynghylch ansawdd y broses hunanasesu;
6.1.3 pa mor dda y mae canfyddiadau'r adroddiad hunanasesu yn cyd-fynd â chanfyddiadau arolygwyr allanol;
6.1.4 y cydweddiad rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanasesu a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig;
6.1.5 faint y mae arweinwyr a rheolwyr yn ei wybod am berfformiad mewn meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt;
6.1.6 cywirdeb systemau gwybodaeth reoli wrth ddarparu data perthnasol; a
6.1.7 pha mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth wrthrychol yn systematig i arfarnu perfformiad ac ysgogi gwelliant.

Arweiniad pellach

Dylai partneriaethau pobl ifanc a, phan fo hynny'n briodol, darparwyr unigol, gynhyrchu adroddiad hunanasesu. Wrth ystyried ansawdd yr adroddiad, dylech ystyried y ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- cynllun cyflwyno a strategaeth y bartneriaeth pobl ifanc;
- cynlluniau datblygu prosiectau;
- canlyniadau ymgynghori â phobl ifanc;
- amgyffrediad pobl ifanc ynghylch y ddarpariaeth, ac arolygon eraill;
- arsylwi cymheiriaid;
- gwybodaeth a chymaryddion meincnodi lleol a chenedlaethol;
- cymhariaeth â darparwyr tebyg;
- gwybodaeth gan Is-adran Ieuenctid a Chyfleoedd Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adroddiadau Estyn; a
- chynlluniau ac arfarniadau darparwyr unigol.

6.2 A yw arweinwyr a rheolwyr yn sefydlu trefniadau hunanarfarnu sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol?

Arfarnwch:

6.2.1 a yw'r broses hunanasesu yn canolbwyntio ar wella safon cyflawniad pobl ifanc;
6.2.2 pa mor effeithiol y mae rheolwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella ac yn gweithredu strategaethau cadarn i sicrhau'r gwelliannau dymunol;
6.2.3 a reolir yr holl wasanaethau cymorth ieuenctid ar sail asesiad cywir o gryfderau a diffygion;
6.2.4 pa mor dda y mae staff a phobl ifanc yn cyfrannu at y broses hunanasesu, yn ymwybodol o'r canfyddiadau, yn berchen ar y canlyniadau ac yn gweithredu ar sail y canlyniadau hynny;
6.2.5 a yw hunanasesu yn broses barhaus neu beidio; ac
6.2.6 a yw'r adroddiad hunanasesu yn cynnwys yr holl agweddau a restrir yn fframwaith arolygu Estyn.

Arweiniad pellach

Mae pob agwedd ar y ddarpariaeth yn ffocws dilys at ddibenion hunanarfarnu.

Dylai trafodaethau gydag uwch reolwyr, cydlynydd y bartneriaeth pobl ifanc, aelodau'r cyrff goruchwylio a phobl ifanc, eich helpu i arfarnu graddau eu hymwybyddiaeth o ansawdd a safonau. Dylech ganolbwyntio ar ganlyniadau'r broses hunanasesu ac yn arbennig, y camau a gaiff eu cymryd i ddatblygu cryfderau a gwella gwendidau.

6.3 A yw arweinwyr a rheolwyr yn ceisio canfod barn pobl ifanc, staff ac eraill sydd â diddordeb, ac yn eu hystyried?

Arfarnwch pa mor effeithiol y mae darparwyr yn:

6.3.1 ymgynghori â phobl ifanc, y defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr;
6.3.2 targedu ymgynghori gyda 'grwpiau anodd eu cyrraedd' a'r rhai nad ydynt yn manteisio ar wasanaethau cymorth ieuenctid yn draddodiadol;
6.3.3 hyfforddi staff mewn dulliau o ymgynghori â phobl ifanc;
6.3.4 ystyried safbwyntiau fforymau ieuenctid a chynghorau ysgol;
6.3.5 ymgynghori â staff a rhanddeiliaid eraill;
6.3.6 ymgynghori â chynrychiolwyr y sector gwirfoddol trwy gyfrwng, er enghraifft, Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS), neu'r cyngor gwasanaethau gwirfoddol lleol;
6.3.7 ceisio mesur eu llwyddiant wrth fodloni anghenion cyfranogwyr a'r gymuned; a
6.3.8 gwneud defnydd da o ystod o ffurfiau, gan gynnwys er enghraifft, cylchlythyron a'r Rhyngrwyd, i rannu gwybodaeth a hysbysu pobl ifanc am y newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymgynghori.

Arweiniad pellach

Bydd rhanddeiliaid yn cynnwys, er enghraifft, yr holl ddarparwyr eraill mewn ardal, aelodau etholedig, grwpiau cymunedol, gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc a'r heddlu. Bydd angen i chi ystyried:

- sut y trefnir ymgynghoriad mewn ardal a pha mor effeithiol ydyw;
- pa mor gynrychioliadol yw'r fforwm ieuenctid;
- bodolaeth fforymau ardal lleol;
- a gânt eu rhedeg a'u rheoli gan oedolion neu bobl ifanc;
- y defnydd a wneir o TGCh i ymgynghori â phobl ifanc;
- lefelau rheolaeth amrywiol;
- pa mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn cynnwys pobl ifanc yn ei brosesau ymgynghori; a
- pha mor effeithiol y rhoddir cymorth a hyfforddiant i bobl ifanc i ddatblygu eu gallu i ymgynghori ag eraill ac ymateb i ymgynghoriad mewn ffordd ystyrlon.

6.4 A yw arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill, yn deall y trefniadau hunanarfarnu ac yn cymryd rhan lawn ynddynt?

Arfarnwch:

6.4.1 pa mor bell y mae darparwyr yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau gwelliannau ar draws y ddarpariaeth;

6.4.2 pa mor dda y mae staff, a darparwyr gwasanaeth eraill yn cyfrannu at hunanarfarnu a pha mor effeithiol y maent yn ei ddefnyddio i gynllunio gwelliannau;

6.4.3 pa mor dda yw'r gwaith o geisio ac ystyried adborth mewnol ac arfarniadol a pha mor effeithiol y caiff ei ddefnyddio i wella ansawdd;

6.4.4 y mecanweithiau sy'n bodoli i sicrhau y cymerir camau gweithredu ar ôl hunanasesu a'r dulliau a ddefnyddir i hysbysu staff a defnyddwyr o'r newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i asesu; a

6.4.5 phan gaiff darpariaeth ei chontractio allan neu ei gwneud ar ran arianwyr eraill, effeithlonrwydd y trefniadau i archwilio ansawdd.

❑ effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwelliant

6.5 A yw arweinwyr a rheolwyr yn pennu blaenoriaethau a chamau clir er mwyn ysgogi gwelliant?

Arfarnwch y graddau y mae'r darparwr yn:

6.5.1 cynllunio ar gyfer gwella ar sail data cyfoes, cywir ac y mae'n hawdd cael gafael arno ynghylch demograffeg, anghenion cymdeithasol-economaidd ac anghenion eraill, adnoddau a lefelau cyfranogi presennol;

6.5.2 defnyddio gwybodaeth o waith hunanasesu i osod targedau priodol i staff er mwyn datblygu gwasanaethau a fydd yn annog pobl ifanc i gyflawni;

6.5.3 defnyddio safonau ansawdd arbenigol sy'n ymwneud ag agweddau ar eu gwaith megis Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP), y Fframwaith Rheoli Ansawdd Ewropeaidd (EQFM), 'Quest for Quality' Gwobr Dug Caeredin a'r System Sicrhau Ansawdd Ymarferol ar gyfer Sefydliadau Bach (PQASSO); ac

6.5.4 yn sicrhau bod rheolwyr a staff yn cydweithio i sicrhau gwelliant.

Wrth asesu ymatebion y darparwr i flaenoriaethau gwella, dylech ystyried:

- pa mor dda y mae'r darparwyr yn cynllunio ac yn cydlynu rhaglenni gweithgareddau sy'n bodloni anghenion a diddordebau pobl ifanc ac yn bodloni gofynion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- faint o'r gwaith cynllunio a gaiff ei seilio ar ddata cyfoes a chywir ynghylch demograffeg, anghenion pobl ifanc, adnoddau a lefelau cyfranogi presennol; ac
- ehangder, perthnasedd a hygyrchedd prosiectau a gweithgareddau.

Yn ogystal, bydd angen i chi ystyried y materion hyn wrth lunio barn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol y bartneriaeth pobl ifanc.

6.6 A yw arweinwyr arheolwyr yn sicrhau bod adnoddau digonol yncael eu dyrannu i gefnogi blaenoriaethau?

Arfarnwch a yw arweinwyr a rheolwyr yn:

6.6.1 darparu digon o adnoddau i fodloni blaenoriaethau ac amcanion;

6.6.2 chwilio am ffynonellau ariannu allanol i ddarparu a gwella gwasanaethau cymorth ieuenctid;

6.6.3 ystyried ystod eang o anghenion adnoddau, gan gynnwys arian, adeiladau, adnoddau y mae eu hangen ar gyfer gweithgareddau ac amser wrth ddyrannu cyllidebau; ac yn

6.6.4 ystyried cyfraniad yr holl bartneriaid.

6.7 A yw rheolwyr ac arweinwyr yn gallu dangos bod camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mesuradwy?

Arfarnwch a yw:

6.7.1 camau a gymerwyd wedi cael effaith gadarnhaol, er enghraifft, trwy arfarnu pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr wedi nodi diffygion a delio â nhw'n gyflym ac yn effeithiol;

6.7.2 camau wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid ac yng nghyflawniadau gwahanol grwpiau o bobl ifanc; ac

6.7.3 a yw arweinwyr a rheolwyr, lle bo hynny'n briodol, wedi mesur effaith cyflawniadau pobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid ar eu cyflawniad a'u cyrhaeddiad mewn lleoliad ysgol a choleg, a'r modd y

mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cyfrannu at gyrraedd y targedau a osodwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu (2)[3].

Arweiniad pellach

Dylech roi sylw gofalus i gynlluniau gweithredu a baratowyd o ganlyniad i weithgareddau hunanasesu. Bydd effeithiolrwydd wrth ddelio â diffygion a nodwyd yn rhoi syniad da o ymrwymiad y darparwr a'r bartneriaeth pobl ifanc tuag at welliant parhaus.

Gallai prif enghreifftiau o welliant gynnwys y canlynol:

- ystod y ddarpariaeth;
- hygyrchedd y ddarpariaeth;
- pa mor gynhwysol yw'r ddarpariaeth;
- a oes darpariaeth Gymraeg ar gael;
- dulliau effeithiol o ymgynghori â phobl ifanc;
- effeithiolrwydd cyfranogiad pobl ifanc mewn gwasanaethau a gwneud penderfyniadau;
- a oes gwasanaethau cyngor, iechyd a chyfreithiol ar gael i bobl ifanc; ac
- ansawdd y gwaith a wneir mewn partneriaeth.

[3] Y Wlad sy'n Dysgu

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth lunio barnau, dylech ystyried, lle mae'n berthnasol, y graddau:
pa mor ddigonol ac addas yw'r staff, yr adnoddau dysgu a'r adeiladau, a'r defnydd a wneir ohonynt	7.1 y mae digon o staff addysgu, hyfforddi a staff cymorth eraill sy'n brofiadol, arbenigol a chymwys; 7.2 y mae pob dysgwyr yn gallu manteisio ar adnoddau dysgu priodol sy'n cyd-fynd ag anghenion eu profiadau dysgu; ac 7.3 y mae adeiladau'n darparu lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a chymorth da i bob myfyriwr.
pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian	7.4 y mae adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; 7.5 y mae staff addysgu, hyfforddi a chymorth yn cael eu trefnu, eu rheoli a'u datblygu'n effeithiol; 7.6 y caiff adnoddau eu cydweddu â blaenoriaethau datblygu y darparwr; ac 7.7 y mae'r defnydd o adnoddau'n cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Defnyddio'r meini prawf

Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Byddwch yn arfarnu ac yn adrodd ar:

- **ddigonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau**

7.1 A oes digon o staff addysgu, hyfforddi a staff cymorth sy'n gymwys, yn arbenigol ac yn brofiadol?

Arfarnwch:

7.1.1 a oes digon o staff sydd â chymwysterau priodol ac sy'n dod â chymysgedd priodol o brofiad, gwybodaeth a dealltwriaeth i'w gwaith;
7.1.2 a oes digon o staff cymwys neu brofiadol i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau arbenigol;
7.1.3 a oes digon o staff sy'n gallu, pan fo hynny'n briodol, cynnig gwasanaethau dwyieithog neu weithio gyda phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg;
7.1.4 a wneir defnydd da o wirfoddolwyr pan fo hynny'n briodol ac a roddir hyfforddiant a chymorth addas iddynt;
7.1.5 a gaiff rolau yr holl wirfoddolwyr a staff eu diffinio a'u deall yn eglur;
7.1.6 a yw disgrifiadau swydd wedi'u diweddaru ac yn adlewyrchu gwaith y staff ac anghenion y darparwr;
7.1.7 a yw cynlluniau datblygiad staff yn cynnwys cynlluniau i sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gymwys, yn gallu cymhwyso;
7.1.8 a yw gweithwyr ieuenctid yn cydweithio gyda staff a rheolwyr eraill i gynllunio'r ddarpariaeth a llunio ffyrdd o gofnodi cyflawniadau pobl ifanc a chofnodi eu cynnydd;
7.1.9 a yw'r system gwerthuso staff yn nodi anghenion datblygiad staff;
7.1.10 a yw darparwyr yn nodi perfformiad gwael ac yn sicrhau bod y cymorth yn effeithiol wrth helpu staff i wella;
7.1.11 a oes gan yr holl ddarparwyr lawlyfr staff addas; ac
7.1.12 a cheir polisi datblygiad staff cyffredinol ac a gaiff gweithdrefnau hyfforddi a gwerthuso staff eu cydlynu ar draws y ddarpariaeth.

7.2 A gaiff pob unigolyn ifanc fynediad i adnoddau dysgu priodol sy'n cyfateb i ofynion eu profiadau dysgu?

Arfarnwch:

7.2.1 a oes gan ddarparwyr bolisi cyffredinol ynghylch defnyddio offer;
7.2.2 a yw lefel yr adnoddau, eu defnydd a'u cyflwr yn gwella ansawdd y gwasanaethau;
7.2.3 a yw'r adnoddau a'r offer o ansawdd da ac yn ddigonol i ddarparu gwasanaethau penodol;
7.2.4 a oes modd cael mynediad i adnoddau TGCh gan

gynnwys mynediad i'r Rhyngrwyd, ac a ydynt o ansawdd da ac yn cael eu monitro'n rheolaidd;

7.2.5 a yw meddalwedd TGCh yn briodol;

7.2.6 a ddefnyddir adnoddau'n briodol;

7.2.7 a oes gan bobl ifanc fynediad i lyfrgell, adnoddau dysgu ac y rhennir offer a deunyddiau ysgol a choleg a sefydliadau eraill yn agored pan fo hynny'n briodol;

7.2.8 a ymgynghorir â phobl ifanc ynghylch yr offer y mae eu hangen arnynt neu yr hoffent ei gael ar gyfer eu gweithgarwch;

7.2.9 a yw cyllidebau darparwyr ar gyfer adnoddau yn ddigonol;

7.2.10 a cheir polisi adnewyddu effeithiol;

7.2.11 a cheir mecanwaith effeithiol i rannu offer ar draws darpariaeth y bartneriaeth. Er enghraifft:

- bysiau mini;
- camerâu fideo ac offer ffilm;
- offer sain a disgo;
- gliniaduron ac offer TGCh arall; ac
- offer chwaraeon a gweithgareddau awyr agored.

Arweiniad pellach

Ystyriwch y graddau y mae gan bartneriaethau pobl ifanc, darparwyr a phrosiectau unigol bolisi eglur i reoli adnoddau. Aseswch ansawdd ac argaeledd yr adnoddau, a sut y mae hyn yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniadau pobl ifanc. Archwiliwch drefniadau ariannu'r darparwyr a phenderfynwch a yw'r ariannu yn ddigonol yng ngolau anghenion.

Ystyriwch a yw'r bartneriaeth pobl ifanc wedi cymryd camau i archwilio a thrafod y ffordd y defnyddir offer a chyfleusterau eraill yn yr ardal. Er enghraifft, a all gwasanaethau cymorth ieuenctid wneud defnydd effeithiol o adnoddau ychwanegol a reolir gan gymdeithasau gwirfoddol neu gyrff cyhoeddus eraill. Gallai'r rhain gynnwys cyfleusterau chwaraeon, amgueddfeydd, orielau a theatrau.

7.3 A yw'r adeiladau'n darparu lleoliad addas ar gyfer dysgu, addysg a chymorth da i bob unigolyn ifanc?

Arfarnwch:

7.3.1 a yw'n hawdd cael mynediad i'r adeiladau ac a ydynt yn fan lle y mae pobl ifanc yn dymuno bod;

7.3.2 a yw'r adeiladau'n adlewyrchu diwylliant y defnyddwyr;

7.3.3 a ymgynghorir yn rheolaidd â phobl ifanc ynghylch y ffordd y defnyddir adeiladau a'u haddasrwydd;

7.3.4 a yw'r adeiladau'n hwyluso cyflawni nodau ac amcanion y gwaith gyda phobl ifanc;

7.3.5 a cheir adeiladau digonol i sicrhau darparu'r gweithgareddau hyn yn effeithiol ac yn effeithlon, a rhoi mannau da i bobl ifanc a staff;

7.3.6 a yw'r adeiladau'n cynnig amgylchedd croesawgar, trefnus, glân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a diogel i staff a phobl ifanc;
7.3.7 a yw'r adeiladau'n darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol;
7.3.8 a all y rhai mewn cadair olwyn a phobl ifanc sydd â nam corfforol arall ddefnyddio'r adeiladau'n hawdd;
7.3.9 a oes gan y darparwr bolisi cyffredinol ynghylch adeiladau;
7.3.10 a yw'r darparwr yn monitro ac yn arfarnu'r ffordd y defnyddir yr adeiladau'n rheolaidd;
7.3.11 a cheir protocolau sefydledig ynghylch defnyddio adeiladau a rennir.

Arweiniad pellach

Arfarnwch ansawdd cyffredinol adeiladau gan gynnwys mannau yn yr awyr agored, ac a yw'r rhain yn darparu amgylcheddau dysgu ysgogol ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Ystyriwch natur yr eiddo a'r graddau y gall yr adeilad fod yn rhwystr i bobl ifanc ag anableddau rhag mynd i mewn iddo.

Pan fo'r darparwr wedi trafod defnyddio cyfleusterau masnachol addas i gynnig darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn ardal, ystyriwch a yw'r adeiladau'n addas. Er enghraifft, man mewn canolfan siopa leol, sinema neu safle bowlio i'w ddefnyddio fel safle gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc.

- **pa mor effeithlon y rheolir adnoddau i gyflawni gwerth am arian**

7.4 A wneir defnydd darbodus effeithiol ac effeithlon o adnoddau sydd ar gael?

Arfarnwch a oes gan y bartneriaeth pobl ifanc a'r darparwr:

7.4.1 drosolwg da o'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael;
7.4.2 digon o adnoddau i redeg yn effeithiol ac yn rheoli ei adnoddau ei hun yn effeithlon; ac
7.4.3 a yw'n cydlynu blaenoriaethau a'r adnoddau sydd ar gael i alinio cyllidebau'n effeithiol.

Arfarnwch pa mor effeithiol y mae darparwyr yn:

7.4.4 trefnu staff ac adnoddau i gynnig darpariaeth effeithiol;
7.4.5 nodi adnoddau ychwanegol y mae eu hangen;
7.4.6 gwneud penderfyniadau gwario ac yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r holl bobl ifanc a sicrhau gwerth am arian;
7.4.7 cyllidebu'n systematig ar gyfer yr holl wariant ac yn eglur ynghylch costau unrhyw ddatblygiadau sy'n digwydd; ac
7.4.8 yn dirprwyo cyllidebau pan fo hynny'n briodol.

Arfarnwch:

7.4.9 a yw'r awdurdod lleol yn sicrhau y dilynir cyngor Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddyrannu arian i wasanaethau cymorth ieuenctid;
7.4.10 a oes gan bartneriaid o'r sector gwirfoddol ddigon o adnoddau i ymgymryd â rôl lawn a gweithredol yn y bartneriaeth a'r ddarpariaeth; ac
7.4.11 a oes gan brosiectau unigol ddigon o arian i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.

Arweiniad pellach

Mae gan aelodau statudol y bartneriaeth pobl ifanc gryn fynediad i adnoddau. Mae polisi LICC yn datgan yn glir bod rhaid i ddarparwyr adlinio cyllidebau i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac anghenion pobl ifanc.

Gall y bartneriaeth gomisiynu gwaith o fewn ei sefydliadau partner neu sefydliadau eraill. Ystyriwch pa mor effeithiol y defnyddir y broses gomisiynu yn y bartneriaeth.

Ystyriwch y modd y mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli adnoddau hyfforddi, er enghraifft, drwy Ymestyn Hawliau, Cynorthwyo Pobl Ifanc – Gweithio gyda phobl ifanc: sicrhau ansawdd a gallu.

7.5 A gaiff gweithwyr ieuenctid a staff eraill eu trefnu, eu rheoli a'u datblygu'n effeithiol?

Arfarnwch:

7.5.1 effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol o staff a gwirfoddolwyr;
7.5.2 polisïau datblygiad staff a'r graddau y ceir cynlluniau i sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gymwys yn sicrhau cymwysterau priodol;
7.5.3 a oes digon o staff i gynnig gwasanaethau'n effeithiol;
7.5.4 a yw cymhareb y staff gyda'r bobl ifanc yn briodol i'r gweithgarwch;
7.5.5 pa mor dda y trefnir staff ar draws y bartneriaeth i sicrhau ystod eang o ddarpariaeth;
7.5.6 pa mor dda y trefnir staff i fanteisio ar eu harbenigedd yn y ffordd orau a bodloni anghenion prosiectau a gweithgareddau unigol;
7.5.7 effeithiolrwydd cynlluniau i recriwtio a hyfforddi staff o'r gymuned leol;
7.5.8 pa mor dda y mae rheolwyr yn cynllunio i ddefnyddio, hyfforddi a chynorthwyo gwirfoddolwyr pan fo hynny'n briodol;
7.5.9 pa mor eglur y caiff rolau staff a gwirfoddolwyr eu diffinio a'u deall;

7.5.10 pa mor effeithiol y mae darparwyr yn cynllunio ar gyfer absenoldeb ymhlith y staff ac yn ei reoli;
7.5.11 pa mor dda y mae'r system gwerthuso staff yn nodi anghenion datblygiad staff;
7.5.12 y ffordd y mae'r darparwr yn nodi perfformiad gwael; a'r
7.5.13 gweithdrefnau i gynorthwyo staff i wella'u perfformiad.

7.6 A yw'r adnoddau'n cyfateb i flaenoriaethau'r darparwr ar gyfer datblygu?

Arfarnwch:

7.6.1 pa mor dda yw'r cyswllt rhwng adnoddau a gweledigaeth strategol y darparwr;
7.6.2 y cytundebau rhwng y darparwr a phartneriaid i drefnu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol; a
7.6.3 pha mor hyblyg yw'r darparwr wrth drefnu adnoddau.

7.7 A adolygir yn rheolaidd y ffordd y defnyddir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian?

Arfarnwch pa mor dda y mae'r darparwr yn:

7.7.1 defnyddio egwyddorion gwerth am arian i sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid;
7.7.2 dadansoddi ystadegau rheolaeth i fesur effeithlonrwydd;
7.7.3 sicrhau bod egwyddorion gwerth am arian yn rhan annatod o reolaeth yn y dyfodol, yn hytrach nag yn y gorffennol yn unig;
7.7.4 cymharu darpariaeth gyda darpariaeth partneriaethau a darparwyr eraill;
7.7.5 ymgynghori ag eraill a phobl ifanc yn arbennig ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag adnoddau;
7.7.6 gwneud newidiadau gan ymateb i'r heriau a osodwyd ganddynt ar eu cyfer eu hunain;
7.7.7 llwyddo i gydbwyso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn erbyn y costau;
7.7.8 ystyried cyflawniadau pobl ifanc ac ansawdd y gwasanaethau wrth sicrhau adnoddau;
7.7.9 meddu ar gyswllt agored a thryloyw rhwng adnoddau ac angen;
7.7.10 sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'n bodloni angen heb unrhyw orgyffwrdd neu gyflawni'r un peth ddwywaith; ac
7.7.11 yn defnyddio data ac ystadegau i feincnodi gwerth am arian.

Arfarnwch pa mor dda y mae'r darparwr yn:

7.7.12 sicrhau bod y cyfrifoldebau dros reolaeth ariannol yn cael eu deall a'u gweithredu'n effeithiol ar bob lefel rheolaeth briodol;
7.7.13 annog staff ar bob lefel i fod yn ymatebol a mentrus wrth gynllunio gwasanaethau cymorth ieuenctid er mwyn sicrhau gwerth am arian; ac

7.7.14 yn sicrhau bod yr amser a gaiff ei dreulio ar wahanol feysydd gweithgarwch yn adlewyrchu blaenoriaethau'r bartneriaeth pobl ifanc yn ogystal â rhai eu hunain.

Arweiniad pellach

Nid rôl yr arolygydd yw bod yn archwilydd neu'n gyfrifydd, ond arfarnu pa mor bell y mae prosesau i sicrhau gwerth am arian yn bodoli ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Caiff nifer o wasanaethau cymorth ieuenctid eu seilio ar drefniadau partneriaeth ac maent yn dibynnu ar rannu eiddo ac adnoddau eraill. Er y caiff rhai prosiectau arian, cânt eu rhedeg gan wirfoddolwyr. Bydd angen i chi farnu ansawdd y ddarpariaeth sy'n deillio o drefniadau partneriaeth yn erbyn cost wirioneddol y ddarpariaeth.

Atodiad A: Yr Hawl Gyffredinol

Mae gan bob unigolyn ifanc yng Nghymru yr hawl sylfaenol i:

- addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'u teilwra i'w hanghenion;
- medrau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac sy'n hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol;
- ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gyfranogi mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol;
- gwasanaethau a chyfleusterau ansawdd uchel, ymatebol a hygyrch;
- cyngor ac arweiniad gyrfaoedd arbenigol ac annibynnol a gwasanaethau cynghori a chymorth i fyfyrwyr;
- cyngor a chymorth personol – ble a phryd y maent ei angen mewn ffurf briodol – gyda rheolau sylfaenol eglur ynghylch cyfrinachedd;
- cyngor ynghylch iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill a ddarperir mewn lleoliadau croesawgar a hygyrch;
- cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hawdd manteisio arno;
- profiadau chwaraeon, artistig, cerddorol ac yn yr awyr agored i feithrin talentau, ehangu gorwelion a hyrwyddo persbectifau cyflawn, gan gynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol; ac
- yr hawl i gael eu hymgynghori, i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau, a chael eu clywed, ar bob mater sy'n ymwneud â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mewn amgylchedd lle ceir:

- ffocws cadarnhaol ar gyflawniad yn gyffredinol a'r hyn y gall pobl ifanc ei gyfrannu;
- ffocws ar ddatblygu gallu pobl ifanc i fod yn annibynnol, gwneud dewisiadau a chyfranogi yn y broses ddemocrataidd; a
- dathlu llwyddiant pobl ifanc.

Atodiad B: Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru

Ysgrifennwyd a chymeradwywyd Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru i ddechrau ym1992. Adolygwyd y datganiad canlynol a'i ailysgrifennu yn 2001. Yn y dyfodol, caiff ei adolygu bob tair blynedd. Am wybodaeth bellach trowch at: Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru, Asiantaeth Ieuenctid Cymru, 2002.

Diben y Datganiad hwn yw:

- pennu prif ddibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru;
- hysbysu'r rhai y tu allan i'r gwasanaeth o'r dibenion hyn;
- darparu dealltwriaeth gyffredin o'r dibenion hyn;
- darparu fframwaith i ddatblygu arfer a phennu blaenoriaethau; a
- chreu ffordd o fesur cynnydd tuag at gyflawni'r dibenion hyn.

Nid diben y Datganiad hwn yw:

- arwain at un cwricwlwm rhagnodol ac anhyblyg a fyddai'n cyfyngu ar amrywiaeth neu flaengaredd.

Dibenion gwaith ieuenctid

Dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru yw:

- **hyrwyddo** ac **annog** cyfle cyfartal yn weithgar i bob person ifanc er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial fel unigolion wedi'u grymuso, ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau;
- rhoi **cefnogaeth** weithredol i bobl ifanc yn ystod newidiadau sylweddol yn eu bywydau a'u **cynorthwyo** i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn ystod eu trosglwyddiad i fywyd fel oedolyn; ac
- annog pobl ifanc i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd sy'n eu galluogi i ddefnyddio'u medrau, eu hadnoddau a'u hamser yn bwrpasol.

Mae gwaith ieuenctid, trwy ei berthynas gwirfoddol gyda phobl ifanc, yn cynnig cyfleoedd cynhwysol i ddysgu sy'n:

Addysgu

Galluogi pobl ifanc i ennill medrau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd y mae eu hangen i nodi, eirioli a sicrhau eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o gymunedau a grwpiau, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mynegi

Annog a galluogi pobl ifanc i gyfleu eu hemosiynau a'u dyheadau trwy gyfrwng cyfleoedd creadigol, chwaraeon a heriol sy'n codi ymwybyddiaeth o:

- hunaniaeth ddiwylliannol;
- dwyieithrwydd a gwerth eu hiaith eu hunain;
- treftadaeth;
- parch at amrywiaeth; a
- dinasyddiaeth a pharch tuag at eraill.

Cyfranogi

Pan anogir pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a dod yn bartneriaid cyfartal sy'n sylfaenol i'r prosesau dysgu a'r strwythurau penderfynu sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylcheddau nhw ac ar fywydau ac amgylcheddau pobl eraill.

Galluogi

Annog a galluogi pobl ifanc i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau er mwyn iddynt allu gweithredu ynghylch y materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau ac ar fywydau eraill, fel dinasyddion cyfrifol y cymunedau y maent yn rhan ohonynt.

Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Dylent:

- herio gormes ac anghydraddoldeb;
- derbyn y gwahaniaethau sy'n bodoli oherwydd hil, hunaniaeth rywiol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a dosbarth; a
- chydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth, ieithoedd eraill ac amrywiaeth diwylliannau Cymru.

Cyflwyno gwaith ieuenctid yng Nghymru

Cyflwynir gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy gyfrwng perthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid sy'n gweithio yn eu sefydliad eu hunain ac mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu a/neu hwyluso:

- rhaglenni addysgol nad ydynt yn rhai ffurfiol, anffurfiol ac wedi'u strwythuro, sy'n herio'r sefydliadau a'r bobl ifanc eu hunain i wella'u datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol;

- lleoedd a pherthynas y gall pobl ifanc fwynhau eu hunain ynddynt, teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael cymorth ac yn cael eu gwerthfawrogi, gan ddysgu sut i gael mwy o reolaeth ar eu bywydau a chydnabod a gwrthod y dylanwadau niweidiol sy'n gallu effeithio arnynt; a

- manteisio ar wybodaeth, cyngor, arweiniad a chynghori perthnasol sy'n cynnwys dealltwriaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau.

Cynorthwyir darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru gan waith ymchwil priodol i faterion a thueddiadau sy'n effeithio'n arbennig ar fywydau pobl ifanc. Mae cydweithio ag asiantaethau a gwasanaethau priodol yn bwysig er mwyn gallu defnyddio'u harbenigedd i wella'r broses o nodi anghenion, diddordebau, hawliau a chyfrifoldebau pobl ifanc.

Blaenoriaethau

Mae'r gwasanaeth ieuenctid ar agor i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed, ond mae'n rhoi blaenoriaeth i'r cyfnod trosglwyddo i fywyd fel oedolyn, sef y grŵp oedran rhwng 13 a 19 oed.

Gellir pennu materion a grwpiau blaenoriaeth ar sail genedlaethol, lleol neu sefydliadol a dylid eu seilio ar egwyddorion sicrhau mynediad a chyfle cyfartal.

Darpariaeth

Pennir math, dull a chymysgedd darpariaeth gwaith ieuenctid ar lefel uned, lleol, cenedlaethol a sefydliadol.

Dylid ystyried ffurfio darpariaeth briodol ar sail angen.

Mae anghenion unigolion yn hanfodol yn y broses hon, nid yn unig i sicrhau canlyniadau polisi cymdeithasol ond hefyd i dargedu eu dyheadau a'u dymuniadau eu hunain.

Gallai'r dulliau cyflwyno a ddefnyddir gynnwys:

- gwaith mewn canolfan;

- canolfannau ag arbenigedd on ran y cwricwlwm;

- gwaith ar wahân;

- gwasanaethau gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chynghori;

- darpariaeth symudol;

- gwaith allymestyn;

- gwaith prosiect;

- gwaith preswyl;
- darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer grwpiau penodol;
- gwaith gydag unigolion;
- gweithio mewn partneriaeth;
- mecanweithiau i ymgynghori â phobl ifanc; a
- darparu cyfleoedd i wirfoddoli.

Mesur cynnydd ac asesu canlyniadau

Dylai Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru ddarparu sail ar gyfer pennu meini prawf y cytunir arnynt ac y gellir eu defnyddio i archwilio'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn fewnol a/neu'n allanol, er mwyn nodi canlyniadau penodol cyflwyno Gwaith Ieuenctid.

Dylid pennu meini prawf o'r fath ar bob lefel yng nghyd-destun y ddarpariaeth.

Mae'n ddyletswydd ar bob darparwr gwaith ieuenctid i bennu dulliau o fonitro ac arfarnu cynnydd. Dylai Sefydliadau/Darparwyr Gwasanaethau Ieuenctid nodi a rhannu arfer dda, a herio meysydd sy'n destun pryder ar yr un pryd, gan gynnig cymorth a hyfforddiant priodol yn ôl yr angen.

Wrth asesu canlyniadau, dylai darparwyr feddu ar systemau sefydledig i gynllunio, arfarnu a monitro pob darn o waith ieuenctid a gyflwynir a bod y manteision cadarnhaol i bobl ifanc yn cael eu nodi'n eglur.

Dylai darparwyr (hefyd) ystyried canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a fframwaith Estyn ar arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Bydd y broses arfarnu a chynllunio gweithredu barhaus yn hyrwyddo gwelliannau, galluogi nodi arfer gwaith ieuenctid da ac yn cyfrannu at ddatblygiad strategaethau gwaith ieuenctid yn y dyfodol.

Atodiad C: Gofynion gwybodaeth

Bydd gwybodaeth y bydd ei hangen oddi wrth bartneriaethau pobl ifanc a darparwyr <u>cyn</u> yr arolygiad yn cynnwys y canlynol pan fo hynny'n berthnasol:

Hanfodol

- adroddiad hunanasesu ar gyfer y bartneriaeth pobl ifanc;
- cynlluniau strategol a chyflwyno'r Bartneriaeth Pobl Ifanc;
- strwythur yr awdurdod lleol, gan ddangos lleoliad y bartneriaeth pobl ifanc, y gwasanaeth ieuenctid lleol a gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill;
- rhestr lawn o aelodau'r bartneriaeth pobl ifanc, y darparwyr/sefydliadau a gynrychiolant a rhifau cyswllt;
- rhaglen lawn y gweithgareddau a arolygir;
- amserlen **awgrymedig** ar gyfer yr arolygiad, gan gynnwys cyfarfodydd â phartneriaid a rhanddeiliaid;
- rhestr o staff allweddol ynghyd â rhifau ffôn;
- map yn dangos lleoliad yr ystafell sylfaen; a
- Swyddfa Amddiffyn Plant lleol a manylion cyswllt.

Lle bo'n berthnasol a heb eu cynnwys yn yr adroddiad Hunanasesu:

- trefniadau partneriaeth, gan gynnwys rhestr o asiantaethau allanol y mae'r bartneriaeth pobl ifanc neu'r darparwr yn gweithio gyda nhw;
- datganiadau cenhadaeth a chynlluniau cyflwyno/gweithredol;
- adroddiadau hunanasesu a chynlluniau gweithredu;
- cynlluniau strwythur: er enghraifft;
  - sut y trefnir darparwyr – gydag enwau deiliaid swyddi, a nodi cyfrifoldebau;
- cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer yr awdurdod lleol a sut y mae gwasanaethau cymorth ieuenctid yn berthnasol i'r rhain;
- pan fo hynny'n berthnasol, cynlluniau strategol a gweithredol darparwyr unigol;
- amserlenni staff;

- deunyddiau marchnata neu gyhoeddusrwydd perthnasol;
- nodiadau byr ynghylch cefndir y sefydliad, gan gynnwys disgrifiad byr o natur yr ardal a wasanaethir, gan amlygu agweddau/materion allweddol;
- map ariannu ar gyfer prif ffynonellau nawdd cyhoeddus a sut caiff ei wario;
- gwybodaeth am bolisi iechyd a diogelwch;
- cadarnhad o atebolrwydd cyhoeddus etc;
- data cyrhaeddiad a chyflawniad; a
- Dangosyddion Perfformiad ar gyfer y PPIau a'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae gwybodaeth y bydd ei hangen gan sefydliadau <u>yn ystod</u> yr arolygiad yn cynnwys:

- mapiau i ganolfannau a lleoliadau allymestyn;
- map wasgar o'r ddarpariaeth;
- yr ystadegau diweddaraf;
- manylion ynghylch cymwysterau a phrofiad staff amser llawn a rhan-amser;
- enghreifftiau o ddisgrifiadau swydd;
- tystiolaeth o waith, cyflawniadau a chyrhaeddiad pobl ifanc;
- ffeiliau tystiolaeth at ddibenion hunanasesu: gallai'r rhain gynnwys ffurflenni arsylwi wedi'u llenwi ac unrhyw dystiolaeth arall;
- papurau polisi, gan gynnwys cyfle cyfartal ac ati;
- enghreifftiau o gytundebau lefel gwasanaeth/memorandwm dealltwriaeth;
- data demograffig a ddefnyddir gan y bartneriaeth pobl ifanc a darparwyr i lywio polisi a chynllunio – gan gynnwys dangosyddion amddifadedd;
- cofnodion monitro;
- adroddiadau i uwch reolwyr, aelodau etholedig, cofnodion cyfarfodydd ac ati;
- adroddiadau arolygon, bodlonrwydd pobl ifanc a thystiolaeth ymgynghori;
- llawlyfr staff gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau sefydlu;
- manylion trefniadau goruchwylio a gwerthuso;

- polisi a chofnodion datblygiad staff;
- rhaglen datblygiad staff gan gynnwys cofnodion Grant Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH);
- enghreifftiau o ddeunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd;
- enghreifftiau o waith ymchwil a wnaethpwyd; a
- ffeiliau canolfan/prosiect, gan gynnwys cofnodion gwaith ar wahân/allymestyn.

Sylwer y caiff is-set briodol o ddogfennau ar gyfer pob arolygiad ei chyd-drafod.

Atodiad Ch: Ffynonellau tystiolaeth posibl

Prif ffynonellau tystiolaeth ynghylch ansawdd a safonau yn y gwasanaeth a ddarperir yw arsylwi cyfranogwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau, samplau o waith pobl ifanc a chofnodion o'u cyflawniad. Caiff pob arfarniad ysgrifenedig, dangosyddion a thystiolaeth arolygu arall, eu hystyried a'u trafod yn ystod cyfarfodydd y tîm arolygu. Yna, bydd arolygwyr yn llunio barnau corfforaethol ac yn dyfarnu graddau drafft ar gyfer y saith cwestiwn allweddol.

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

- arsylwi sesiynau;
- cyfarfodydd gyda phobl ifanc, staff, rheolwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill;
- adroddiad hunanasesu'r darparwr;
- data ynghylch presenoldeb, cyfraddau cadw, cyrhaeddiad, dilyniant a gwerth ychwanegol (pan fyddant ar gael);
- dadansoddiad y sefydliad o ddata o ran cyfartaleddau a meincnodau cenedlaethol;
- gwaith y cyfranogwr;
- pan fo hynny'n berthnasol, adroddiadau dilyswyr mewnol ac allanol a gofynion cyrff dyfarnu;
- cofnodion cyflawniad; a
- thystiolaeth o gyflawniad arall a gofnodwyd.

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r gwaith gyda phobl ifanc a'r asesu?

- arsylwi sesiynau/gweithgareddau;
- niferoedd a phroffil y rhai sy'n cyfranogi;
- cyfraddau presenoldeb a chadw;
- arsylwi cyfranogiad cyfranogwyr wrth gynllunio;
- pan fo hynny'n berthnasol, arsylwi asesu;
- trafod gyda staff a phobl ifanc;

- dogfennau cynllunio;
- tystiolaeth o gynllunio sesiynau/gweithgareddau;
- ffeiliau canolfan/prosiect;
- cofnodion o gynnydd pobl ifanc;
- CV a disgrifiadau swydd y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- arolygon defnyddwyr;
- tystiolaeth ar ffurf dogfennau o arfarnu ansawdd a safonau; a
- chofnodion hunanasesu.

Cwestiwn allweddol 3:	**Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau pobl ifanc a'r gymuned ehangach?**

- arsylwi sesiynau/gweithgareddau;
- trafod gyda staff, pobl ifanc, aelodau etholedig a rhanddeiliaid allweddol eraill;
- gwybodaeth/data demograffig ynghylch oedran, rhyw, tarddiad ethnig, anabledd a statws cyflogaeth;
- cynlluniau cyflwyno a strategaeth bum mlynedd y bartneriaeth pobl ifanc;
- datganiadau o genhadaeth, cynlluniau strategol a gweithredol a datganiadau polisi sefydliadau;
- cwmpas, proffil ac amserlen y ddarpariaeth;
- adroddiadau hunanasesu a chynlluniau gweithredu;
- datganiadau polisi ynghylch cyfle cyfartal;
- deunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd a deunyddiau sy'n ceisio annog cyfranogiad pobl ifanc o grwpiau penodol;
- gwybodaeth am y farchnad lafur, gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad a dadansoddiad ohoni;
- tystiolaeth o wybodaeth ddiduedd sydd ar gael i bobl ifanc, gan gynnwys gwybodaeth am yrfaoedd;
- cofnodion cyfarfodydd;

- tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth;
- dogfennau a chytundebau lefel gwasanaeth yn ymwneud â chysylltiadau a'r berthynas â sefydliadau eraill;
- ystadegau rheoli, yn enwedig cyfraddau cyfranogi a data arall a ddefnyddir mewn gweithgareddau cynllunio a monitro;
- arolygon defnyddwyr a thystiolaeth o ymgynghori â phobl ifanc; a
- dadansoddi patrymau cyfranogi a gwirfoddoli.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i bobl ifanc?

- arsylwi sesiynau/gweithgareddau;
- trafodaethau gyda phobl ifanc, rheolwyr, staff, rhieni a rhanddeiliaid eraill;
- datganiad o genhadaeth, siarterau, deunyddiau cyhoeddusrwydd, recriwtio a marchnata;
- arolygon o safbwyntiau pobl ifanc a staff;
- polisi a gweithdrefnau cyfle cyfartal;
- polisïau cymorth, a gweithdrefnau i gefnogi pobl ifanc;
- tystiolaeth o'r wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc;
- tystiolaeth o'r cyngor sydd ar gael i bobl ifanc ar, er enghraifft: iechyd, camddefnyddio sylweddau, rhyw, tai, materion ariannol a materion eraill;
- cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd ag anghenion penodol megis problemau iechyd meddwl;
- gwasanaethau cynghori sydd ar gael i bobl ifanc;
- pan fo hynny'n briodol:
  - deunyddiau asesu a sefydlu diagnostig;
  - cynlluniau dysgu/gweithredu unigol pobl ifanc; a
  - thystiolaeth o gymorth gyda medrau sylfaenol ac allweddol;
- polisïau'n ymwneud â phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu, anableddau corfforol, nam ar eu synhwyrau ac anghenion arbennig eraill;

- siarterau pobl ifanc;
- gweithdrefnau apelio a chwyno a chofnodion apeliadau a chwynion;
- polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch;
- trefniadau a gweithdrefnau ynghylch cymorth personol ychwanegol;
- datganiadau anabledd;
- data lleol ynghylch cyfle cyfartal; a
- chofnodion recriwtio staff a chyflogaeth.

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

- trafodaeth gyda'r bartneriaeth pobl ifanc, uwch reolwyr yr awdurdod lleol a/neu reolwyr darparwyr;
- trafodaethau gyda phobl ifanc, staff a rhanddeiliaid allweddol;
- strategaeth bum mlynedd y bartneriaeth pobl ifanc, cynlluniau cyflwyno a dogfennau cynllunio darparwyr;
- llawlyfr staff, llawlyfr ansawdd, adroddiadau arolygu blaenorol, ystadegau meincnodi ac ystadegau eraill ac adroddiadau hunanasesu, a phapurau perthnasol eraill;
- cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau i bwyllgorau ac aelodau etholedig;
- polisi staffio, y strwythur staffio a disgrifiadau swydd;
- copïau o'r holl bolisïau a threfniadau rheoli cyllideb a gyhoeddwyd gan gynnwys trefniadau i ddyrannu cronfeydd i benawdau cyllideb;
- gwybodaeth yn ymwneud â gosod targedau; a
- gwybodaeth a gesglir ar hyd yr arolygiad, gan gynnwys arsylwi sesiynau/gweithgarwch, trefniadaeth a gweithdrefnau rheoli, trefniadau ansawdd, dirprwyo a defnyddio cyllid, staff, amser, adnoddau ac adeiladau.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

- arsylwi'r sefydliad yn gweithredu, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd;
- trafodaeth gyda rheolwyr, pobl ifanc, staff, partneriaid, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill;

- cofnodion ac adroddiad hunanasesu;
- polisïau i reoli ansawdd;
- tystiolaeth o fecanweithiau ansawdd i sicrhau cysondeb ar draws y ddarpariaeth gyfan;
- polisïau, strategaethau a chynlluniau;
- adroddiadau i bwyllgorau a swyddogion;
- cofnodion cyfarfodydd;
- dangosyddion gwasanaeth a ddefnyddir wrth fonitro ac arfarnu'n fewnol;
- defnyddio canlyniadau ymgynghori a dangosyddion eraill wrth gynllunio a datblygu'r gwasanaeth;
- ansawdd y broses cadw cofnodion;
- rheoli gwybodaeth;
- arolygon bodlonrwydd defnyddwyr a safbwyntiau'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr;
- polisi staffio, y strwythur staffio a disgrifiadau swydd;
- systemau gwerthuso staff a pholisïau ac arfer datblygiad staff;
- trefniadau rheoli cyllideb gan gynnwys trefniadau i neilltuo arian i weithgareddau/prosiectau/darparwyr;
- trefniadau CYMORTH a GCAH;
- yr holl wybodaeth yn ymwneud â gosod targedau; a
- gwybodaeth a gesglir trwy gydol yr arolygiad, gan gynnwys arsylwi gweithgareddau, trefniadau a gweithdrefnau rheoli, trefniadau ansawdd, dirprwyo a defnyddio cyllid, staff, amser, adnoddau, adeiladau a threfniadau cludiant.

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

- arsylwi'r sefydliad yn gweithredu, gan gynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd;
- arolygu'r holl adeiladau a'r cyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys cyflwr, ymddangosiad a pha mor hawdd yw hi i ddefnyddio adeiladau a safleoedd a sut y cânt eu defnyddio ac ansawdd arddangosiadau;

- arolygu’r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys adnoddau dysgu a lleoliadau profiad gwaith ar gyfer prosiectau mynediad ieuenctid;

- arolygu ansawdd ac argaeledd y wybodaeth i bobl ifanc y mae’n hawdd manteisio arni ac y mae ei ffurf yn hawdd i'w deall;

- arolygu argaeledd ac ansawdd yr adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yr offer ymarferol a’r deunyddiau clyweledol;

- defnyddio adnoddau o’r tu allan, fel cyfleusterau preswyl, teithiau cyfnewid, teithiau, ymweliadau ac adnoddau cymunedol;

- arsylwi gweithgareddau;

- trafodaeth gyda phobl ifanc a staff;

- dogfennau ynghylch staffio, gan gynnwys y llawlyfr staff, y polisi datblygiad proffesiynol, disgrifiadau swydd ac amserlenni;

- copïau o’r holl bolisïau a threfniadau rheoli cyllidebau, gan gynnwys trefniadau i ddyrannu cronfeydd;

- yr holl wybodaeth yn ymwneud â gosod targedau;

- disgrifiadau swydd a chynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol;

- proffil y gyllideb bresennol;

- lefelau cymorth gweinyddol a’r cydbwysedd rhwng lefelau staffio proffesiynol a gweinyddol;

- gwybodaeth a gesglir trwy’r arolygiad, gan gynnwys arsylwi gweithgareddau, trefniadau a gweithdrefnau rheoli, trefniadau ansawdd, dirprwyo a defnyddio cyllid, staff, amser, adnoddau ac adeiladau;

- astudiaethau meincnodi (pan fyddant ar gael); a

- dangosyddion ystadegol, gan gynnwys cymarebau cyswllt a chostau uned y ddarpariaeth.

Atodiad D: Acronymau a byrfoddau

ACCAC	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
AY	Arolygydd Ychwanegol
ASDAN	Rhwydwaith Achredu a Datblygu Cynllun Gwobrwyo
AWYPO	Sefydliadau Pobl Ifanc Cymru Gyfan
CCAH	Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant
PP	Partneriaeth Plant (0-10)
CWVYS	Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru
CYPF	Fframwaith Plant a Phobl Ifanc
ELWa	Addysgu a Dysgu Cymru (Cyngor Cenedlaethol)
EFQM	Sefydliad Rheolaeth Ansawdd Ewropeaidd
ETAP	Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru
AEM	Arolygydd (Arolygwyr) Ei Mawrhydi
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
BmP	Buddsoddwyr mewn Pobl
CDU	Cynllun Dysgu Unigol
TG	Technoleg Gwybodaeth
AALlau	Awdurdodau Addysg Lleol
AEMRh	AEM Rheoli
CGC	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol
RhCA	Rhwydwaith y Coleg Agored
AC	Asesydd Cymheiriaid
WCVA	Cyngor Asiantaethau Gwirfoddol Cymru
WYA	Cyngor Ieuenctid Cymru

PPI Partneriaeth Bobl Ifanc (11-25)

YaPP Is-adran Cyfranogiad Ieuenctid a Disgyblion (cyn mis Ebrill 2006)

YaLLO Is-adran Ieuenctid a Dysgu Gydol Oes (o fis Ebrill 2006 ymlaen)